# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019 am 2.00 o'r gloch yp** | | **TUESDAY, 12 NOVEMBER, 2019 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson- (Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL - PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** (Tudalennau 9 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn.

5 **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - TREFNIADAU LLYWODRAETHU** (Tudalennau 53 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 63 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Mr Dafydd Gruffydd – Rheolwr Gyfarwyddwr – Menter Môn<br>Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru. |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (mewn perthynas ag eitemau 4 a 5),<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (mewn perthynas ag eitem 6),<br>Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu a Gwella Ansawdd (AH) (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (mewn perthynas ag Eitemau 4 a 5);<br><br>Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE.<br>Mr Dyfed W Jones – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Meirion Jones - Deilodd Portffolio - Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid (mewn perthynas ag eitem 6). |

---

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Dr Gwynne Jones, y Prif Weithredwr, ar ei ymddeoliad.

Llongyfarchodd Mrs Annwen Morgan ar gael ei phenodi'n Brif Weithredwr yn dilyn ymddeoliad Dr Gwynne Jones

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2019

**4 MONITRO CONTRACTAU YN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Drefniadau Monitro'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at rôl y Tîm Contractau, sy'n cynnwys 3 o Swyddogion ar hyn o bryd, sy'n gwneud gwaith er mwyn:-

- Sicrhau bod contractau'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a statudol;
- Gweithredu fframwaith cadarn ar gyfer monitro contractau, gan sicrhau fod perfformiad contractau'n cael ei fonitro yn erbyn y manylebau;
- Sicrhau fod gwaith monitro ac adolygu systematig yn digwydd mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi preswyl a nyrsio, gwasanaethau byw yn y gymuned, gwasanaethau gofal cartref a gwasanaethau dydd ar Ynys Môn a darparwyr tu allan i'r sir.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol at weithdrefnau monitro'r Tîm Contractau fel a ganlyn:-

**Gofal Cartref** – Ymweliadau safle blynyddol lle rhoddwyd rhybudd (edrych ar ffeiliau Defnyddwyr Gwasanaeth a ffeiliau staff, polisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau, cofnod o gwynion a ffurflenni MAR);

**Gofal Preswyl/Nyrsio** – Ymweliad safle ar y cyd gyda BIPBC lle rhoddwyd (edrych ar ffeiliau Defnyddwyr Gwasanaeth a ffeiliau staff, polisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau, cofnod o gwynion a ffurflenni MAR). Rhyngweithio gyda phreswylwyr ac arsylwi arferion yn y cartref;

**Maethu** – Consortiwm Comisiynu Cymru, sydd â thîm monitro yn gweithio fel rhan o'r consortiwm hwn;

**Gofal Preswyl plant** – gwaith monitro yn y swyddfa, Consortiwm Comisiynu Cymru.

**Byw â Chymorth** – Ymweliad safle blynyddol lle rhoddwyd rhybudd – edrych ar ffeiliau Defnyddwyr Gwasanaeth a ffeiliau staff, polisïau, llyfr damweiniau a digwyddiadau, cofnod o gwynion a ffurflenni MAR;

**Gwasanaethau Dydd** – ar hyn o bryd, ymweliad safle llawn ac archwiliad o'r holl bolisïau ac asesiadau risg perthnasol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud mewn Cartrefi Gofal Preswyl mewn perthynas â chyflawni a darparu tystiolaeth o’r 9 amcan penodol yn y fframwaith monitro. Mewn perthynas â Gofal Cartref, mae model contract yn galluogi darparwyr i reoli eu costau’n well drwy wneud arbedion, gan ddarparu gwasanaeth mwy lleol a gwella lefelau recriwtio a chadw staff. Maethu Plant/Lleoliadau Preswyl - proses fyw ar gyfer atgyfeiriadau lleoliadau a thendro, gan ddefnyddio CCSR i lunio rhestr fer o ddarparwyr sy’n berthnasol i anghenion y plentyn. Mae darparwyr yn amlygu'r hyn y gallent ei gynnig bob tro y bydd plentyn angen lleoliad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- Gofynnwyd a yw cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol yn cael eu monitro yn yr un ffordd â chartrefi gofal preifat. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol bod union yr un trefniadau monitro yn bodoli ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod hefyd;
- Gofynnwyd a oes digon o staff i fonitro’r gwasanaeth i’r safonau gorau posib. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Tîm Contractau wedi cynyddu i 3 yn ystod y flwyddyn a’i fod yn ystyried fod y tîm yn monitro’r gwasanaethau i lefel dderbyniol. Cyfeiriodd at fonitro risgiau a nododd y bydd y gwasanaeth yn ystyried a oes angen cynnal ymweliadau mor aml os yw’r Awdurdod Lleol yn hyderus bod y darparwyr gwasanaeth yn perfformio i lefel uchel. Fodd bynnag, os oes pryderon, gall y Tîm Contractau gynnal ymweliadau yn fwy cyson. Os yw trigolion o Ynys Môn yn cael ei lleoli mewn cartrefi gofal tu allan i’r sir, yr awdurdod lleol yn yr ardal honno fydd yn gwneud y gwaith monitro;
- Gofynnwyd beth yw’r trefniadau os oes gan deuluoedd bryderon am y gwasanaeth a ddarperir gan gartrefi gofal. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid codi’r pryder gyda’r cartref gofal yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os yw’r pryderon yn parhau, dylai’r achwynydd gysylltu â’r Awdurdod Lleol ac AGC. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â’r darparwr i gael mwy o wybodaeth am bryderon yr achwynydd ac os yw’r mater yn ymwneud â diogelu, rhoddir ystyriaeth i dystiolaeth o esgeuluso ac a oes angen cyfeirio’r mater at yr Heddlu;
- Gofynnwyd a yw’r Tîm Contractau’n gofyn am farn y cleientiaid mewn cartrefi gofal pan gynhelir ymweliadau. Dywedodd y Rheolwr Contractau eu bod yn cynnal trafodaethau gyda chleientiaid ond weithiau nid yw iechyd rhai ohonynt yn dda neu nid ydynt o reidrwydd yn deall y cwestiynau a ofynnir iddynt mewn perthynas â'r gofal a ddarperir. Gofynnir i deuluoedd gwblhau holiadur i gasglu eu barn a’u profiad am y gwasanaeth a ddarperir mewn cartrefi gofal;
- Gofynnwyd a yw’r Tîm Contractau’n monitro’r cyfleusterau yn Hafan Cefni a Penucheldre. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y ddarpariaeth Cartref Gofal yn cael ei monitro yn y ddau leoliad. Nododd fod yr asiantaeth dai, Pennaf, yn gyfrifol am safonau’r llety a ddarperir;
- Gofynnwyd pam nad yw Canolfannau Gofal Dydd yn cael eu monitro gan AGC. Dywedodd y Rheolwr Contractau nad yw’r Canolfannau Gofal Dydd yn sefydliadau cofrestredig ar hyn o bryd ac o ganlyniad nid ydynt yn cael eu harchwilio, ond mae Canolfannau Gofal Dydd yn cael eu hadolygu gan Adran

Gontractau'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o safon uchel;

- Nodwyd bod rhai rhannau o'r tabl canlyniad perfformiad yn goch mewn perthynas â rhai o'r gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod hyn yn dangos nad oedd rhai o'r cartrefi gofal yn darparu gofal o'r safon ddisgwyliedig ar yr adeg benodol honno yn 2015 ond, oherwydd y trefniadau monitro a roddwyd mewn lle, nid yw'r cartrefi gofal hyn yn y categori coch bellach. Nododd y Rheolwr Contractau bod cynllun gwella yn cael ei roi mewn lle os nad oedd cartref gofal yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Gofynnodd un o'r Aelodau a yw'r Tîm Contractau'n cynnal ymweliadau gyda'r nos ac ar benwythnosau. Dywedodd y Rheolwr Contractau bod aelod o'r tîm wedi bod yn ymweld, yn ddirybudd, yn ystod amser cinio i fonitro a yw cleifion yn cael cymorth i fwyta a bod ymweliadau wedi cael eu cynnal gyda'r nos ac ar benwythnosau hefyd lle'r ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol;
- Nodwyd ei bod yn ymddangos fod lefel uchel o drosiant staff yn y cartrefi gofal a bod hynny'n gallu arwain at lefelau is na'r disgwyl o hyfforddiant ac arfer dda yn y cartrefi. Dywedodd y Swyddog Contractau fod trosiant staff yn uchel mewn rhai cartrefi gofal gyda staff yn symud o un cartref gofal i'r llall. Gall hyfforddiant fod yn broblem yn yr achosion hynny. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol bod rhaid i'r Sector Gofal ddenu mwy o bobl ac, yn ei farn o, bod angen strwythur cyflogau cyffredin ar draws y sector gofal.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod Adroddiad Blynyddol ar Drefniadau Monitro'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.**

**ACTION : Fel y nodwyd uchod.**

**5 DIOGELU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi trosolwg o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymdrin â materion Diogelu yn ddyddiol yn ymwneud ag atgyfeiriadau ynghylch unigolion a all fod mewn perygl. Fodd bynnag, mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bob un o Wasanaethau'r Cyngor ac mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o'u rôl mewn perthynas â diogelu.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Gwella Ansawdd gyflwyniad i'r Pwyllgor a dywedodd y dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, ac oedolion ymrwymo i'w diogelu a gwella eu lles. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion a all fod mewn perygl. Nododd fod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn darparu canllawiau clir ynglŷn â'r disgwyliadau i bob swyddog. Mae bob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am y trefniadau diogelu o fewn eu gwasanaeth. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol gan y Cyngor i ddarparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r Cyngor. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol hefyd ac mae aelodau'r bwrdd yn

cynnwys pencampwyr diogelu o bob un o wasanaethau'r Cyngor. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Gwella Ansawdd fod rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth gynnwys eu blaenoriaethau diogelu yng Nghynllun Busnes Blynyddol eu gwasanaeth a'u bod wedyn yn cael eu monitro yn unol â gweithdrefnau monitro'r Cyngor. Dywedodd ei bod yn credu bod y mater hwn yn datblygu i orgyffwrdd yn naturiol â'r agenda diogelu cymunedol h.y. Prevent a Chaethwasiaeth Fodern. Delio gydag achosion ble'r ystyrir bod unigolion mewn perygl a materion diogelu corfforaethol.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Gwella Ansawdd fod gan yr Awdurdod Gynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol (Atodiad 1 yn yr adroddiad) sy'n canolbwyntio'n bennaf ar weithredoedd trawsbynciol ar draws yr Awdurdod cyfan, yn hytrach nag ar faterion sy'n berthnasol i un gwasanaeth yn unig. Dywedodd fod cyfrifoldeb corfforaethol am y maes hwn yn cryfhau o fewn y Cyngor a bod sefydlu'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol wedi cynyddu'r proffil ar draws yr Awdurdod cyfan. Mae adroddiad archwilio mewnol diweddar wedi amlygu risg mewn perthynas â llywodraethiant gan nad yw cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn cael eu cofnodi felly nid oes gan y Bwrdd dystiolaeth o'i drafodaethau/penderfyniadau. Nodwyd fod y mater hwn yn cael sylw ac y bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cofnodi. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth ei bod yn ystyried bod risg i enw da'r Cyngor petai unigolion yn cael eu niweidio o ganlyniad i gamgymeriad diogelu. Cyfeiriodd at enghreifftiau o sefydliad lle'r oedd materion yn ymwneud â diogelwch y gweithlu wedi arwain at niweidio enw da. Roedd yr Adroddiad Archwilio hefyd wedi amlygu'r angen i gryfhau rôl y Bwrdd Strategol i sicrhau bod y gwasanaethau mewnol yn gweithredu'r fframwaith a'r polisïau a roddwyd mewn lle gan yr Awdurdod. Nododd fod Diogelu Corfforaethol wedi ei gynnwys yn yr Hunan Asesiadau newydd eleni er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol bod y gwasanaethau unigol o fewn y Cyngor yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Cadarnhawyd y bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd er mwyn sicrhau fod ganddo drosolwg o'r agenda ddiogelu ehangach, ac i gryfhau'r trefniadau ar gyfer herio a dal gwasanaethau i gyfrif.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- Gofynnwyd sut mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas ag adrodd am ddigwyddiadau'n ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Gwella Ansawdd at y sianelau arferol a ddefnyddir gan yr Awdurdod i roi cyhoeddusrwydd i'r mater a sut i roi gwybod am bryderon am unigolion a all fod mewn perygl. Nododd bod Bwrdd Partneriaeth Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru wedi'i sefydlu a'r Dirprwy Brif Weithredwr yw cynrychiolydd yr Awdurdod hwn. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Bwrdd Partneriaeth yn trefnu cynadleddau sy'n delio gyda nifer o bynciau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern; mae Heddlu Gogledd Cymru yn arwain ar godi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern drwy ddarparu posteri ac apiau symudol i ganiatáu i bobl gysylltu â'r sefydliadau perthnasol. Nododd bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned wedi trafod caethwasiaeth fodern yn ei gyfarfod yn ddiweddar;
- Nodwyd bod cynllun Gweithredu 2018/19 - 2019/20 yn dangos nad yw'r cais am enwebiadau i'r grŵp tasg i ddatblygu adran ddiogelu ar y mewnrwyd wedi cael ei

gwblhau. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth fod rhaid i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol herio ei hun i sicrhau bod unigolion cyfrifol yn yr Awdurdod yn enwebu staff i gyflawni'r cam gweithredu hwn sydd yn flaenoriaeth, a nododd y byddai hynny'n digwydd.

- Nodwyd ei bod yn bwysig bod gwasanaethau yn mapio cydymffurfiaeth eu staff gyda gofynion hyfforddiant diogelu gorfodol. Bydd hyn yn cefnogi dull cydlynol o sicrhau fod unigolion yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl. Bydd rhaid i reolwyr o fewn yr Awdurdod sicrhau fod yr holl staff yn cydymffurfio â'r gofynion a'u bod yn ymwybodol o faterion diogelu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Gwella Ansawdd nad oes gan rai aelodau o staff gyfeiriadau e-bost ac nad oes modd iddynt gael mynediad at unrhyw gwrs e-ddysgu. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu iddynt drwy ddulliau eraill.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r trefniadau sydd mewn lle, yn ogystal â'r meysydd y mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn eu gyrru i sicrhau fod y dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni;**
- **Bod Adroddiad Blynyddol ar Drefniadau Diogelu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.**

**CAMAU GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION: ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Dywedodd y Cadeirydd, sydd hefyd yn Gadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion, fod y Panel wedi cyfarfod ar dri achlysur rhwng mis Mai a Gorffennaf 2019. Derbyniodd y Panel adborth llafar ac argraffiadau'r Aelodau yn dilyn y cyntaf o'r gweithgareddau cysgodi GwE. Roedd yr argraffiadau cychwynnol hyn wedi caniatáu i'r Panel fireinio trefniadau gyda GwE ar gyfer y cyfnod nesaf, gan gynnwys cyflwyno profforma adborth i'r Aelodau ei gwblhau ar ddiwedd pob ymweliad cysgodi. Bydd y broses hon yn cryfhau ymhellach y trefniadau llywodraethiant sy'n sylfaen i'r ffrwd waith hon, gan ddarparu tystiolaeth ar y cyd o argraffiadau a myfyrdodau Aelodau, yn ogystal â gweithredu fel mecanwaith i uwchgyfeirio negeseuon allweddol i'r Panel roi ystyriaeth bellach iddynt. Dywedodd y Cadeirydd fod y Panel wedi cael cyfle i weld gwaith disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ym mis Mehefin 2019 a'u bod wedi craffu ar effaith y prosiect cydweithio ar safonau. Nodwyd y bydd y Panel yn ailgydio yn ei raglen o herio perfformiad ysgolion gan adeiladu ar ei waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd y Cadeirydd bod angen ystyried cylch gorchwyl y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol. Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Panel, y Rheolwr Sgriwtini a'r Dirprwy Brif Weithredwr a chytunwyd i gynnal gweithdy ar gyfer Aelodau Etholedig ar 27 Medi, 2019.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Pwyllgor hwn wedi gofyn am adroddiad ar gynnydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion hyd yma o ran cyflawni ei raglen waith bresennol, sy'n cynnwys herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn; meysydd gwaith a gwblhawyd hyd yma mewn perthynas â'r trefniadau newydd i gysgodi GwE a gyflwynwyd yn ddiweddar; canlyniad yr hunan arfarniad diweddar i fesur effaith gwaith y Panel a'r gwerth ychwanegol a'r angen i adolygu cylch gorchwyl y Panel i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol. Dywedodd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Panel wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Estyn ym mis Mehefin a bod canlyniad y cyfarfod hwnnw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Nodwyd bod yr holl Aelodau Etholedig yn Llywodraethwyr mewn ysgolion ar yr Ynys ac y byddai'n fuddiol iddynt fod yn ymwybodol o waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion â'r rôl y dylent ei chyflawni o ran gwella a herio safonau mewn ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y meysydd datblygu wedi cael eu nodi gan y Panel fel rhan o'r hunan arfarniad a'u bod yn cael eu crynhoi o dan y 7 thema allweddol yn adran 3.5 yr adroddiad. Nododd fod angen i Lywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ac i herio rolau arweinyddiaeth ysgolion;
- Nodwyd fod Estyn wedi dweud fod angen rhoi mwy o sylw i gefnogi'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG). Mynegwyd pryder bod cefnogaeth yr Ymgynghorydd Her GwE wedi cael ei dynnu'n ôl. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd aelod o staff o'r Adran Addysg yn cael ei ddynodi i gefnogi gwaith y CYSAG maes o law.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod y Panel yn parhau i herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn;**
- **Bod y Panel yn cynnwys monitro'r ffrydiau gwaith canlynol yn ei flaen raglen waith:-**
    - **Gweithredu cynllun gwella'r Gwasanaeth Dysgu;**
    - **Darpariaeth Blynyddoedd nas Cynhelir (blynyddoedd cynnar)**
- **Bod y Pwyllgor yn cefnogi gwaith Monitro'r Panel.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**7 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2020.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd yn cael ei gynnal ar 24 Hydref, 2019 a nododd fod yr eitem yn ymwneud â'r Adroddiad Blynyddol: Galw Gofal yn cael ei haildrefnu. Ychwanegodd fod eitem ychwanegol ar Medrwn Môn i'w chynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod ar 24 Hydref.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Ebrill, 2020.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Craffu** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Partneriaethau ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 12 Tachwedd 2019 |
| **Pwnc:** | Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol i'r pwyllgor craffu |
| **Cadeirydd Craffu:** | Y Cynghorydd Gwilym Jones |
| **Deilydd/Deiliaid Portffolio:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae swyddog cefnogi partneriaethau'r ddwy sir wedi'i leoli o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd, arweinydd y Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol yn Ynys Môn yw Ned Michael, a Morwena Edwards (ALI Gwynedd) yw cadeirydd y Bartneriaeth. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Catherine E Roberts - Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>01286 679047<br>Catherineeirlysroberts@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

**1 - Argymhelliad/ion**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

**2 - Cysylltiad i Gynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.**

**3 - Egwyddorion sy'n Arwain yr Aelodau Craffu**

**Bydd y gyfres o egwyddorion a ganlyn arweiniol o gymorth i'r Aelodau wrth graffu'r pwnc hwn:**

**3.1 Y cwsmer/dinesydd** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt pobl leol]

**3.2 Gwerth** [a yw cynlluniau a chynigion yn economaidd yn effeithlon ac yn effeithiol? Hefyd, edrych ar ofynion ehangach buddion cymunedol]

**3.3 Risg** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gwytnwch a thrawsffurfio gwasanaeth. Mae'n ymwneud â throsglwyddo o wasanaeth traddodiadol i un sydd wedi'i drawsffurfio ac yn ymwneud â gwytnwch y gwasanaeth sydd wedi'i drawsffurfio pan ddaw i rym]

**3.4 Canolbwyntio ar y system (gan gynnwys datblygu'r sefydliad)** [Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid systemau mewn grym i sicrhau eu bod yn medru gweithredu'r trawsnewidiad yn ddidrafferth, yn effeithlon a heb gael effaith negyddol ar ddarparu'r gwasanaeth]

**3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:**
- **Tymor hir**
- **Ataliaeth**
- **Integreiddio**
- **Cydweithio**
- **Ymgysylltiad**

**[canolbwyntio ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Craffu Allweddol

- A yw'r pwyllgor yn cytuno gyda blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion ranbarthol?
- A yw'r pwyllgor yn cytuno gyda'r prif gerrig milltir sydd wedi'u datblygu i ddarparu'r gwasanaeth yn lleol yn y cyfnod i ddod?
- A yw'r pwyllgor yn ystyried fod y cynllun gweithredu yn ddigon gwydn, i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth?
- A oes gan y pwyllgor unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol benodol i gyfrannu at adroddiadau yn y dyfodol?
- ar sail yr adnoddau sydd mewn lle ar hyn o bryd i gefnogi gwaith y bartneriaeth, ydi'r sefyllfa yn edrych yn gynaliadwy.

## 5 - Y Cefndir / Cyd-destun

**CEFNDIR -**

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â -

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu

- Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail rhanbarthol a lleol)

Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn a Gwynedd ers 1998. Fodd bynnag, mae wedi gweithredu fel Partneriaeth ddwy-sir ers 2013-14

Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod yr ALl yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Mummery, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Annwen Morgan, sydd wedi cadeirio'r grŵp dros y tair blynedd diwethaf (Ar y cyd â swyddog o Wynedd).

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU -**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Atodir adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2018/19 a chynllun 2019/20 (atodiadau 1,2)

Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a chynllun rhanbarthol y Bwrdd Cymunedau Diogel. Y blaenoriaethau yw -

- Lleihau troseddau a chanddynt ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

**Y PRIF NEGESEUON SY'N DEILLIO O WEITHGARWCH 2018/19 -**

Atodir adroddiad diwedd blwyddyn y Bartneriaeth. Mae'r adroddiad yn dangos y sefyllfa mewn perthynas â'r blaenoriaethau uchod, sef -

- Yn 2018/19, bu cynnydd o 20.7% mewn **Troseddu sy'n seiliedig ar Ddioddefwyr** yn Ynys Môn. Roedd dadansoddiad yn dangos mai gwelliannau mewn effeithiolrwydd adrodd am droseddau, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2018, yn hytrach na chynnydd mewn troseddu oedd yn gyfrifol am y cynnydd hwn. Gwelir cynnydd yn Ynys Môn eto hyd yn hyn eleni (5.5%), ond mae lefelau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr wedi sefydlogi dros y misoedd diwethaf. Mae lefel troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn Ynys Môn o gymharu â'i Grwpiau Mwyaf Tebyg (MSG) yn is na'r cyfartaledd.

- Gwelodd Ynys Môn ostyngiad o -5.7% mewn **Troseddu Meddiangar,** gan gynnwys byrgleriaeth breswyl, yn hanner cyntaf 2019/20 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. O gymharu gyda'i MSG, mae troseddu meddiangar yn Ynys Môn yn llawer is na'r cyfartaledd.

- Mae nifer y **dioddefwyr sy'n dioddef o drosedd fwy nag unwaith** (3 neu fwy mewn 12 mis) yn parhau i gynyddu yn Ynys Môn yn 2019/20 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae tystiolaeth eto o'r patrwm hwn ar draws Gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae newidiadau yn y prosesau cofnodi wedi cael effaith sylweddol ar lefelau troseddau treisgar, sydd wedi arwain at fwy o ddioddefwyr sydd wedi dioddef fwy nag unwaith yn cael eu hadnabod.

- Mae'r **ymddygiad gwrthgymdeithasol** a adroddwyd i Heddlu Gogledd Cymru yn hynod dymhorol gyda nifer llawer uwch o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yn ystod misoedd yr haf o gymharu â misoedd y gaeaf. Mae lefelau YGG a gofnodwyd yn Ynys Môn yn 2019/20 ychydig yn is o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae dioddefwyr sy'n dioddef fwy nag unwaith, lleoliadau a dioddefwyr bregus risg uchel yn cael eu cyfeirio am adolygiad i grŵp tasg amlasiantaethol bob mis.

  Cafwyd sawl problem YGG yn ardal Caergybi yn ddiweddar, yn benodol yn McDonald's a'r ardal gyfagos. Cafodd llawer o waith ei wneud yng nghyswllt y digwyddiadau yn McDonald's lle lluniwyd cynllun Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblem gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO's) i oresgyn y problemau oedd yn cael eu hadrodd gan staff a'r cyhoedd. Cafodd problemau eu datrys drwy addysg ac ymgysylltu ar y cyd â McDonald's ac enillodd y prosiect wobr yng Ngwobrau Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru yn ddiweddar.

- Mae **Troseddau Casineb** yn Ynys Môn wedi gostwng o -40% yn hanner cyntaf 2019/20 wrth gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19, gyda 24 trosedd wedi'i chofnodi eleni hyd yn hyn o gymharu â 40 y llynedd.

- Mae adroddiadau am **Droseddau Domestig** yn Ynys Môn wedi gostwng yn hanner cyntaf 2019/20. Mae **dioddefwyr sy'n dioddef o Gam-drin Domestig fwy nag unwaith** yn Ynys Môn hefyd wedi gweld gostyngiad yn 2019/20 wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 64 o ddioddefwyr sy'n dioddef fwy nag unwaith eleni hyd yn hyn o gymharu â 99 y llynedd.

- Mae lefelau **Trais Rhywiol Risg Uchel** a gofnodwyd yn Ynys Môn wedi gostwng o -37.7% yn hanner cyntaf 2019/20 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O gymharu gyda'i MSG, mae troseddu rhywiol yn Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd.

- **Ail-droseddwyr** yw unigolion dros 18 oed sydd wedi cyflawni trosedd ar dri achlysur neu fwy mewn 12 mis; felly, ciplun o'r 12 mis blaenorol yw'r gwerth ar gyfer bob mis. Mae nifer yr **ail-droseddwyr** yn Ynys Môn wedi aros yn sefydlog yn hanner cyntaf 2019/20 ac wedi gostwng o 61.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**PRIF LWYDDIANNAU 2018/19 -**

- O'r 40 gweithred yng nghynllun 2018/19, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 37 yn wyrdd (cyflawnwyd), un yn ambr (gwaith wedi'i wneud ond heb ei gwblhau) a dwy yn goch (heb ei chwblhau).
- Roedd y weithred ambr yn ymwneud â chanfod adeilad newydd ym Mangor i'r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau weithio ynddo. Ni chyflawnwyd hyn ac mae'r gwaith yn parhau i geisio canfod eiddo priodol.
- Roedd y ddwy weithred goch yn ymwneud â (1) gofynion Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gam-drin domestig ym mhob Awdurdod Lleol. Mae'r gwaith hwn wedi symud ymlaen yn dda yn Ynys Môn, ond nid heb ei anawsterau, yn unol â'r hyn sydd wedi digwydd yn y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Canfu ALl Gwynedd hefyd fod gweithredu'r hyfforddiant hwn yn heriol, er bod gwaith yn parhau, ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i oresgyn y rhwystrau. (2) Mae'r ail yn ymwneud â gwaith sydd ei angen i fonitro effeithlonrwydd gorchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus (PSPO), na chyflawnwyd eleni, ond mae bellach yn ddarn o waith sy'n cael ei wneud gyda'r Heddlu (gweler cerrig milltir y dyfodol).
- Mae'r bartneriaeth wedi bod yn defnyddio'r mesurau perfformiad newydd a ddatblygwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.
- Yn ystod cyfnod y Nadolig, llwyddodd y Bartneriaeth i gael arian grant ychwanegol gan Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru (camddefnyddio sylweddau) i ariannu datgelwyr metel ychwanegol (ar gyfer cyllyll ac ati), camerâu a wisgir ar y corff ac arian ar gyfer bugeiliaid y Stryd ym Mangor, er mwyn cynorthwyo'r Heddlu yn ystod y cyfnod prysur hwn.
- O ran y sefyllfa sy'n ymwneud ag Adolygiadau Lladdiad Domestig (DHR), mae'r bartneriaeth ddwy-sir ar hyn o bryd yn arwain ar un (yng Ngwynedd). Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae un DHR wedi'i gwblhau a'i dderbyn gan y Swyddfa Gartref, er nad yw wedi'i gyhoeddi oherwydd pryderon diogelu parhaus. Ers iddynt ddod yn ymrwymiad statudol yn 2012, mae Gwynedd wedi ymgymryd â thri adolygiad, nid yw Ynys Môn wedi cael unrhyw un hyd yma. Cafwyd wyth adolygiad drwy ogledd Cymru i gyd.
- Mae grŵp gweithredol yn Ynys Môn - a adwaenir fel cyfarfod bregus a rheoli risg (VARM- vulnerable adult referal mechanism), yn dal i weithredu yn Ynys Môn, er ein bod yn aros o hyd am fersiwn terfynol y gwerthusiad. Erbyn hyn, rydym yn gweithio ar beilot posib o'r un strwythur yng Ngwynedd.
- Mae gofynion Deddf newydd Llywodraeth Cymru ar Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), eisoes wedi arwain at:
    - Benodi Ymgynghorydd rhanbarthol newydd
    - Sefydlu Bwrdd rhanbarthol i oruchwylio datblygiad proses strategaeth a chomisiynu rhanbarthol newydd
    - Datblygu strategaeth VAWDASV ranbarthol, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i derbyn.
    - Eleni, symudodd y cydlynydd lleol sy'n gweithio yn Ynys Môn a Gwynedd i weithio yn y tîm rhanbarthol.

- Mae'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau newydd i'r ddwy sir ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cael ei sefydlu yn y cyfnod hwn, ac ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae aelod olaf y tîm wedi cael ei benodi.
- Mae'r bartneriaeth hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth gadw arian gan grant rhanbarthol VAWDASV, i gomisiynu'r rhaglen Tadau Gofalgar am ddeuddeg mis arall. Cwrs gwirfoddol, sy'n ymdrech i wella agweddau ac ymddygiadau tadau 'problemus'.
- Her sylweddol newydd yng Ngogledd Cymru, nid yn annhebyg i sawl ardal arall bellach, yw'r agenda Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), mae yna fygythiad sylweddol i Ogledd Cymru gan gangiau o'r fath sy'n dod o ardaloedd Manceinion a Mersi ac yn sefydlu gweithgarwch gwerthu cyffuriau yn yr ardal. Dros y cyfnod adrodd hwn, mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi bod yn rhan o ymdrech amlasiantaethol i ddatblygu asesiad anghenion Llinellau Sirol ar gyfer y rhanbarth. Mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth wedi bod yn y misoedd diwethaf, ac mae grŵp gangiau trosedd cyfundrefnol dwy-sirol wedi'i arwain gan yr Heddlu, wedi cael ei sefydlu.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo buddsoddiad cyfalaf i wella adeilad Craig Hyfryd yng Nghaergybi, lle mae'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau wedi'i lleoli. Ers y cyfnod adrodd diwethaf, rhoddwyd caniatâd cynllunio i wneud addasiadau a bydd gwaith uwchraddio yn parhau dros y misoedd nesaf.
- Ers yr adroddiad diwethaf, mae gweithiwr teulu newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl bellach wedi cael ei benodi, sydd wedi'i leoli o fewn gwasanaethau plant yn Ynys Môn. Mae gwasanaethau Plant Ynys Môn wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Heddlu i ddatblygu rhaglen hyfforddi a chefnogi ACE (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod), yn bennaf ar gyfer staff yr Heddlu, ond hefyd i rai aelodau o staff ALl ac eraill. Mae llawer wedi cael ei wneud i wella ansawdd dull yr Heddlu o adrodd am faterion diogelu i'r gwasanaethau Plant, yn ogystal â gwaith i wella ymyrraeth gynnar a modelau cydweithio. Mae'r gwaith yn parhau.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio o fewn y ddau ALl i drosi grant diwethaf y Bartneriaeth (Troseddu Ieuenctid), fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, i'r rhaglen Cyllido Hyblyg newydd. Golyga hyn nad yw'r bartneriaeth bellach yn derbyn unrhyw gyllid uniongyrchol o arian grant. Hefyd, ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r tîm diogelwch cymunedol sy'n cefnogi'r gwaith hwn wedi'i leihau i un aelod o staff. Mae trafodaethau yn parhau i newid y prosiect a'r rôl fonitro wedi i ddeiliad y swydd adael ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r cydlynydd Cam-drin domestig wedi symud i swydd ranbarthol yn unol ag amodau'r grant cyllido. Golyga hyn fod y tîm lleol wedi lleihau o saith aelod yn 2014 i un ar hyn o bryd.

**PRIF GERRIG MILLTIR 2019/20 –**

Yn anffodus, mae'r bartneriaeth yn cynnal adolygiad Lladdiad Domestig ar hyn o bryd, yn sgîl marwolaeth yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf 2017. Gobeithiwn y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau a'i anfon i'r Swyddfa Gartref yn fuan. Bydd y gweithgarwch hwn yn gofyn am lefel benodol o ymrwymiad ac amser unwaith eto eleni gan y swyddog cefnogi.

- Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y ddwy sir er mwyn sefydlu sut fydd fframweithiau cysylltu ac adrodd rhwng y partneriaethau yn gweithio yn y dyfodol.
- Mae'r Bwrdd Cymunedau Diogel rhanbarthol wedi bod yn arwain ar ad-drefnu cynllun y grwpiau rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond gall olygu newid sylweddol yn y modd mae gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud yn y dyfodol mewn perthynas ag ambell ffrwd gwaith Diogelwch Cymunedol.
- Ymgymryd â'r broses gyfreithiol o ystyried ac, o bosib, gweithredu gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus newydd ym Mangor - gan gynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.
- Un o'r gweithredoedd sydd yn dal heb ei gwblhau ers y cynllun diwethaf yw adolygu'r PSPOs, a cheir pedwar yn Ynys Môn a saith yng Ngwynedd. Rhoddir y gorchmynion hyn yn eu lle gan Awdurdodau Lleol ac fe'u dylunnir i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y lle cyntaf, bwriedir iddynt fod yn eu lle am dair blynedd, er y gellir eu hymestyn, yn unol â'r hyn sydd wedi digwydd gyda gorchmynion presennol. Fodd bynnag, oherwydd newid mewn deddfwriaeth yn 2014 a newidiodd natur y gorchmynion yn 2017, bydd pob gorchymyn presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2020 (ac eithrio'r gorchymyn mwyaf diweddar ym Mangor). Er mwyn sicrhau bod y gorchmynion yn cael eu hadolygu o ran eu sail tystiolaeth a'u heffeithiolrwydd, rydym yn gweithio gyda'r Heddlu i adnabod data priodol, fel y gellir gwneud penderfyniadau deallus ynglŷn â'r PSPOs y flwyddyn nesaf.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad pellach ar ddiogelwch cymunedol drwy Gymru gyfan. Bydd adroddiadau cynnydd yr holl gynlluniau gwaith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn yn cael eu rhannu'n rheolaidd gydag aelodau'r bartneriaeth. Hyd yn hyn, ni nodwyd unrhyw gyfleoedd cyllido ychwanegol. Y nod yw cael glasbrint ar gyfer materion cyfiawnder yng Nghymru.
- Mae ALl Ynys Môn wedi cynnal archwiliad o ddyletswydd Prevent (radicaleiddio) ac mae gwaith bellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad. Mae hyn yn cynnwys datblygu asesiad yn seiliedig ar risg sy'n deillio o'r Proffil Lleol Gwrth-derfysgaeth rhanbarthol. Bydd hwn yn gynllun dwy-sir. Yn ffodus, mae'r ddwy sir yn ardaloedd sydd â lefel risg isel iawn.
- Gweithio gyda'r Heddlu, lledaenu gwybodaeth am ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac ymwybyddiaeth o alcohol yn ystod Wythnos y Glas ym Mangor.
- Mae menter ar y cyd rhwng Diogelwch Cymunedol a Gwarchod y Cyhoedd yn y ddwy Sir wedi arwain at gefnogaeth i ymgyrch Rhuban Gwyn (terfynu trais yn erbyn merched) gan yrwyr tacsis trwyddedig.
- Rydym yn defnyddio'r grŵp llywio MARAC lleol (cynadleddau asesu risg amlasiantaethol - edrych ar achosion cam-drin domestig) fel modd o fwydo i'r broses adolygu MARAC Rhanbarthol. Yn y cyfnod nesaf, gallai hyn olygu symud i broses llywio MARAC rhanbarthol, cynigir hyn fel y ffordd fwyaf effeithlon ymlaen i'r Bwrdd rhanbarthol ac rydym yn disgwyl am fanylion y broses newydd.
- Bydd y ddau Awdurdod Lleol yn cymryd rhan mewn gwaith a arweinir gan yr Heddlu ar ddatblygu proffiliau cymunedol, gyda'r bwriad o gynorthwyo drwy ddyrannu adnoddau yn effeithlon.
- Gweithredu'r cynllun sydd ynghlwm. Mae rhai o’r prif ddatblygiadau'n cynnwys -

- Codi ymwybyddiaeth a monitro gwerthiannau cyllyll i bobl dan oed.
- Cyfrannu at waith yr Heddlu o ran datblygu proffiliau cymunedol
- Gweithio gyda'r Heddlu i adnabod ffyrdd o dystiolaethu'r angen i barhau â'r PSPOs (wedi'u gosod gan yr ALl)
- Sicrhau bod y MARAC lleol (Cynhadledd asesu risg amlasiantaethol - sy'n ymdrin â dioddefwyr cam-drin domestig) yn uno'n briodol â'r model newydd ar gyfer grŵp rhanbarthol, os mai hynny fydd y penderfyniad terfynol.
- Cyflwyno'r model ACE i Wynedd gan weithio gyda phartneriaid yr Heddlu i adnabod cyfleoedd i wella diogelu ac ymyrraeth gynnar.
- Gweithio gyda phartneriaid ar ddatblygu gwaith rheoli Troseddwr Integredig yn y rhanbarth

**6 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir

**7 - Goblygiadau Ariannol**

Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol

**8 - Atodiadau:**

1. Adroddiad Diwedd y Flwyddyn 2018/19
2. Cynllun Gweithredu 2019/20

**9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach):**


Dim

## Cynllun lleol Gwynedd ac Ynys Môn 2018-19

Bwriad y cynllun dilynol ar gyfer 2018/19 yw adeiladu ar y gwaith eang a wnaed dros y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at leihad sylweddol mewn Trosedd ac Anrhefn yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith a fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2018/19, gan gymryd i ystyriaeth arolwg diweddar diogelwch cymunedol a gomisiynwyd yng Ngwynedd a Môn. Bydd dadansoddiad pellach o'r canlyniadau yn cynorthwyo i lunio rhai o'r allbynnau, a byddwn yn ymateb yn unol â hynny. Bydd y cynllun hefyd yn ystyried yr asesiad strategol, yn ogystal â'r canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol.

Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi'r meysydd gwaith sydd eisoes wedi'u sefydlu, ond gan barhau i gyfrannu tuag at ein ffocws a'r meysydd blaenoriaeth.




Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â Chynllun y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac agenda diogelwch cymunedol y Bwrdd Cymunedau Diogel GC yw:

**1** **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)

- Troseddau wrth ddefnydd technoleg
- Byrgleriaeth ddomestig

**Mesurau:**

**1.** Pob trosedd sy'n seiliedig ar y ddioddefwr

**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)

**3.** Byrgleriaeth breswyl (dangosydd newydd)

- C – Angen gweithred ar unwaith
- M – Gweithred neu brosiect ar y trywydd iawn, ond heb ei gwblhau eto. Adolygu ym mhob cyfarfod PDC.
- G – Gweithred neu brosiect wedi cyflawni
- Diweddariad heb ei dderbyn gan y swyddog dynodedig

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 18 | • Sefydlu grŵp effeithiol troseddau cyfundrefnol *(OCG)* ar gyfer rhanbarth Gorllewin (Gwynedd ac Ynys Môn) | **CH1**<br>**CH1**<br>**CH4** | Amlasiantaeth | 1. Sefydlu grŵp ✓<br>2. Y ddau wasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd, yn aelodau o'r grŵp ✓<br>3. Monitro allbynnau | Sefydlwyd grŵp troseddau cyfundrefnol newydd, gydag aelodaeth gan wasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd y ddau Gyngor. Parhau i fonitro canlyniadau arfaethedig. | G |
| | • Gwella rhannu gwybodaeth rhwng Gwasanaeth Cymdeithasol ac Amddiffyn y Cyhoedd parthed dioddefwyr sgâm | **CH3** | Tîm PDC All, Gwasanaeth Cymdeithasol ac Amddiffyn y Cyhoedd | 4. Hwyluso trafodaethau rhwng adrannau perthnasol a sefydlu proses i'w rhoi ar waith | Hyfforddiant wedi trefnu ar gyfer staff gofal cartref a gweithwyr cefnogol i godi ymwybyddiaeth trosedd ar garreg y drws. Mae'r Heddlu hefyd yn codi ymwybyddiaeth o linellau sirol | G |
| | • Gwasanaeth Tai Ynys Môn a Chartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn cyflwyno strategaeth cynhwysiant digidol; angen ei fonitro i sicrhau nad yw'n cael effaith groes drwy gynyddu tlodi ac unigedd | **CH4** | Gwasanaeth Tai a CCG | 5. Strategaeth mewn lle ✓<br>6. Monitro cynnyrch at diwedd y flwyddyn i asesu os oes unrhyw ganlyniad anfwriadol yn nhermau y rhai sydd yn agored i niwed | Strategaeth cynhwysiant digidol wedi lansio ac yn barod i fynd yn fyw ar wefan CCG. Strategaethau mewn lle gan Tai YM | G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Ynys Môn i gyflwyno Parth Rheoli Galw heb Wahoddiad yn ôl yr angen | **CH3** | Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn | 7. Monitro llwyddiant y nifer ardaloedd oedd yn llwyddiannus i dderbyn Parth erbyn chwarter 4 | Dim ychwaneg o gwynion wedi dderbyn, parhau i fonitro. Dim un ardal wedi cyrraedd y trothwy o fod angen gorchymun | G |
| | • Diogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos y Glas – defnyddio dull amlasiantaeth o ledaenu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn | **CH2** | Heddlu, Tîm PDC ALl | 8. Gwybodaeth wedi rhannu a lledaenu ✓ | Gwybodaeth ac adnoddau wedi dosbarthu. Heddlu a'r tîm 'Amethyst' i gyflwyno pecynnau gwybodaeth i fyfyrwyr. | G |
| Tudalen 19 | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Sgamiau wrth ddefnydd technoleg a phost: Addysgu a chynghori defnyddwyr, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>• Protocol bancio: Cynllun yn galluogi gweithwyr y banc i adrodd i'r Heddlu os drwgdybi'r twyll. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>• *TITAN* Gogledd Gorllewin: Cynrychiolaeth ar y grŵp Troseddau cyfundrefnol Gogledd orllewin. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd<br>• Trosedd ar garreg drws Cymru gyfan: Ymgyrch i mynd i'r afael a troseddau garreg drws yng Nghymru. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>• Unedau ymroddedig troseddau Uwch dechnoleg a Throseddau wrth ddefnydd technoleg. Partneriaid – Heddlu<br>• Grŵp tasg YGG Gwynedd: Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Partneriaid – Heddlu (dull amlasiantaeth) | | | | | |

**2** **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)

**Mesurau:**

**1.** Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 20 | • Ymateb i newidiadau cyllideb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) oddi fewn yr Heddlu; adolygu ac aildrefnu'r grŵp Partneriaeth Gweithredu Gymunedol *(CAP),* yn cynnwys diweddaru cylch gorchwyl | **CH1** | Amlasiantaeth | 9. Sicrhau parhad effeithiol y grŵp *CAP* | Grwpiau wedi eu cadw yn dilyn adolygiad | G |
| | • Sefydlu pa fforwm neu grŵp perthnasol dylasai Safonau Masnach fod yn rhan, parthed rhannu gwybodaeth yfed o dan oed | **CH1** | Amlasiantaeth | 10. Cyfathrebu effeithiol a grŵp wedi sefydlu. (Gweithred arall wedi cytuno ✓) | Trafodaethau wedi cynnal a nifer opsiynau wedi ystyried. Heddlu i arwain ar gryfhau cyfathrebu rhwng yr Uned Cudd-wybodaeth Lleol a Safonau Masnach. | G |
| | **Gwynedd**<br>• Yn ystod y 12 mis nesaf bu'r hyfforddiant Camfantesio'n Rhywiol ar Blant/Diogelu a ddarparwyd yn 17/18, a sydd hefyd yn rhan o amodau trwyddedu wedi'i ymgorffori ymhellach yn y ddogfen bolisi gwasanaeth newydd. Hefyd bydd Diogelwch Cymunedol yn cysylltu â'r swyddog ymgyrchoedd oddi fewn gwarchod y cyhoedd i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer codi ymwybyddiaeth o faterion fel y sy'n briodol. | **CH4** | Uned PDC a Gwarchod y Cyhoedd | 11. Polisi newydd yn weithredol<br><br>12. Cyfleon i gydweithio ar ymgyrchoedd wedi adnabod ✓ | Wedi ei gynnwys yn y polisi newydd<br><br>Cyswllt wedi gwneud gyda'r Technegydd Cludiant Gweithredol, i gefnogi unrhyw ymgyrch i'r dyfodol yn ôl yr angen | G<br><br>G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Sefydlu fframwaith a fydd yn galluogi rhannu gwybodaeth i gefnogi neu arall, parhad y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) | **CH2** | Heddlu, Tîm PDC ALl | 13. Sefydlu fframwaith<br>14. Gwybodaeth perthnasol ar gael i gefnogi parhad y Gorchmynion | Trafodaethau wedi cynnal gyda Dadansoddwr yr Heddlu. Y Dadansoddwr i edrych ar y math o ddata sydd ar gael ar gyfer atafaeliadau ac arestiadau. | R |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Tîm ymyrraeth cynnar: Dull Amlasiantaethol i weithredu ymyrraeth cynnar a mesurau ataliol. Partneriaid: Heddlu, Asiantaethau Tai ac eraill fel yr angen<br>• Gwerthiant o dan oed o gynnyrch oed cyfyngedig : Gwaith gorfodaeth ac ataliol parthed gwerthiant cynnyrch cyfyngedig oed, sef alcohol, tân gwyllt ayyb yn cynnwys pryniannau prawf. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>• Ymgyrchoedd lleol/diwrnodau codi ymwybyddiaeth: Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd penodol e.e. codi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, noson tân gwyllt/Calan gaeaf. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd, Heddlu, Gwasanaeth tân ac achub<br>• Llygredd sŵn: Monitro llygredd sŵn gan gynnwys defnyddio *app* Môn i gasglu tystiolaeth i arwain at gamau gorfodi. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd Ynys Môn a'r Heddlu<br>• Trwyddedu eiddo: Adolygu amodau ac amcanion trwydded pan fo'r angen. Partneriaid: Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu<br>• Ymgyrch MICRA – Targedu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yng Nghaernarfon. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Addysg<br>• Ymgyrch Wax – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd wedi bod yn destun pryder yn y gymuned leol. Parhaus<br>• Ymgyrch Circuit – Digwyddiadau yn gysylltiedig a YGG yng Nghaergybi. Partneriaid – Heddlu ar y cyd a Canolfan Ieuenctid Jessie Hughes, The Hub, Pod Ieuenctid, Gwelfor, Adran Tai a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | |



| | |
|---|---|
| **3** | **Ffocws:** Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd |

- Caethwasiaeth fodern
- Troseddau casineb
- Monitro tensiynau cymunedol

**Mesurau:**

1. Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)
2. Nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern (dangosydd newydd)
3. Nifer yr adroddiadau troseddau casineb (dangosydd newydd)

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  | • Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Rhanbarthol | 15. Ymateb i faterion lleol a all godi | Dim materion wedi dod i sylw'r PDC | G |
| | • Yn dilyn rhagarweiniad o bolisïau ac hyfforddiant i yrwyr tacsis parthed bregusrwydd; angen asesu beth yw effaith hyn erbyn diwedd y flwyddyn | **CH4** | Gwarchod y Cyhoedd | 16. Asesu'r effaith o weithredu'r polisi ac hyfforddiant | Wedi ei gynnwys yn y polisi newydd | G |
| | • Derbyn asesiad o allbynnau y Panel Rheoli Risg a Pobl sy'n agored i niwed *(VARM),* a penderfynu os yw'n addas ar gyfer datblygu'n Ngwynedd | **CH3** | Amlasiantaeth | 17. Asesiad llawn wedi dderbyn, trafodaethau wedi cynnal a gweithredu'n Ngwynedd os yw'n briodol | Trafodaethau wedi cwblhau. Fe fydd adolygiad pellach y flwyddyn nesa | G |
| | • Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Rhanbarthol | 18. Ymateb i faterion lleol a all godi | Dim materion wedi dod i sylw'r PDC | G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 23 | • Bydd pob aelod cyfrifol gyda cynllun gweithredol Atal *(Prevent)* wedi sefydlu oddi fewn eu sefydliadau. PDC i goladu yn unig, statws y gweithgaredd oddi fewn eu sefydliadau i gynnal trosolwg | **CH4** | Amlasiantaeth | 19. Parhau i fonitro a chadw trosolwg | Diweddariadau wedi derbyn, dim materion i'w adrodd. Parhau i fonitro. | G |
| | • Ail ymweld a phenderfyniad yr Heddlu i leihau rhannu gwybodaeth CID16s gyda rhai asiantaethau / gwasanaethau i sicrhau, gan fod rhai yn cwestiynu, rhesymwaith y newidiadau | **CH2** | Amlasiantaeth | 20. Cynnal trafodaethau a dod i gasgliad. Rhannu dealltwriaeth y sefyllfa gyda partneriaid ✓ | Cwblhawyd. Trafodaethau wedi cynnal yn y Grŵp llywio MARAC. Atgoffwyd y grŵp o benderfyniad y Bwrdd Diogelu y dylai CID16s cael ei gyrru i Gwasanaethau Cymdeithasol i ledaenu yn ôl yr angen. | G |
| | • Archwilio grwpiau gweithredol/strategol leol, i sicrhau nad oes bylchau neu ddyblygu o'r gwasanaethau | **CH3** | Uned PDC | 21. Awdit wedi cynnal a chwblhau ✓ | Nid yw'r broses mapio eang cychwynnol, wedi nodi unrhyw ddyblygu o fewn y grwpiau gweithredol. | G |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Cyfarfodydd amddiffyn y gymuned: Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gan yr Heddlu i fonitro tensiynau cymunedol. Partneriaid – Heddlu
- Hyrwyddo'r 'Cynllun Prynwch gyda Hyder - Cymeradwyo Masnachwyr': Cynllun sy'n mynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus. Partneriaid Gwarchod y cyhoedd
- Addysgu'r defnyddiwr: Addysgu gweithwyr gofal cartref, banc a'r swyddfa bost i allu adnabod dioddefwyr, a dioddefwyr oedrannus neu bregus
- Tybaco anghyfreithlon a nwyddau ffug: Codi ymwybyddiaeth ar sut mae'n targedu pobl sy'n agored i newid gyllidol. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Gorfodaeth Tai: Gorfodaeth Tai amlbreswyliaeth ac amodau byw llety. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Archwiliad hylendid a diogelwch bwyd: Gorfodaeth a rhannu gwybodaeth parthed gweithwyr sector bwyd. Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Archwiliad Iechyd a Diogelwch: Archwilio adeiladau e.e. Busnesau golchi ceir, bar ewinedd *(nail bars)* ayyb. Gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu
- Tîm lleihau llogi'n fwriadol: Ymyraethau oddi fewn cymunedau ble mae risg wedi adnabod drwy fonitro tensiynau lleol. Partneriaid – Heddlu a Gwasanaeth Tân ac achub
- Ymgyrch Tîm Safonau Masnach Cenedlaethol: Blaenoriaethu cyfeiriadau ar gyfer dyfeisiadau atal galwadau, i breswylwyr sydd yn byw gyda dementia. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd
- Unedau Caethwasiaeth Fodern a Troseddau Casineb ymroddedig. Partneriaid – Heddlu

| | |
|---|---|
| | • Ymgyrch Caramba – Ymgyrch Gwynedd (Gogledd) a Môn i fynd i'r afael â trais economi gyda'r nos, gyda chefnogaeth gryf gan Swyddogion Gwirfoddol. Partneriaid: Heddlu yn unig |



| | |
|---|---|
| **4** | **Ffocws:** Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) |

**Mesurau:**
**1.** Lefel y cam-drin domestig
**2.** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)
**3.** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)
**4.** Nifer o droseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro (dangosydd newydd)
*Dangosydd newydd ychwanegol bosib – nifer yr erlyniadau cam-drin domestig llwyddiannus

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 25 | • Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu'r trefniadau presennol a sicrhau cydweithio effeithiol. | CH3 | Uned PDC, ALl | 22. Codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch Rhuban Gwyn ✓ | Cynhaliwyd Ymgyrch Rhuban Gwyn yn Ysbyty Gwynedd Tachwedd 23ain. Dosbarthwyd nifer o daflenni gwybodaeth ac larymau personol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth. Cafwyd rhai datgeliadau hanesyddol a phryderon am eraill. | G |
| | • Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys<br>• Gweithredu yn lleol, anghenion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan gydymffurfio a cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a'r bwrdd Rhanbarthol | CH4 | Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Tân | 23. Cyflawni y ddarpariaeth leol i'r lefel ofynnol erbyn diwedd y flwyddyn | Cynllun gwaith yn parhau –ac fe fydd yn parhau am y 5 mlynedd nesa – gyflawnwyd yr hyn oedd yn bosib yn ystod y cyfnod | C |
| | • Cwblhau'r camau olaf o weithredu strwythurau rhanbarthol parthed y tîm cefnogi rhanbarthol | CH2 | Cyngor Gwynedd | | Mae cytundeb bellach wedi'i gyrraedd o ran defnyddio staff presennol, a gall y broses ei roi ar waith a symud ymlaen. | G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 26 | • Sicrhau bod fframwaith wedi sefydlu ar gyfer defnydd cywir o gyllid newydd ar gyfer caledu targed | **CH2** | Adrannau Cefnogi Pobl y ddau Gyngor | 24. Tîm rhanbarthol wedi sefydlu a chydymffurfiwyd â'r holl faterion Adnoddau Dynol ✓ | Cyllid Cefnogi Pobl yn ei le ar gyfer y ddwy sir ar gyfer comisiynu caledu targed uniongyrchol drwy IDVA | G |
| | • Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i adolygu llwybrau cyfeirio parthed Trais yn y Cartref | **CH2** | CCG | 25. Fframwaith wedi sefydlu ac yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn ✓ | Gweithdy i'w gynnal ym mis Tachwedd gyda'r Gynghrair Tai Cam-drin Domestig i wella ymateb CCG i gam-drin domestig, trwy broses achredu sy'n asesu darparwyr tai unigol ac yn eu cefnogi i wella eu harferion | G |
| | • Adolygu'r llwybr dioddefwyr ar y cyd gyda darparwyr arbenigol Trais yn y Cartref a'r hwb dioddefwyr Gogledd Cymru, i sicrhau eglurder ac i osgoi dyblygu pan yn cysylltu gyda dioddefwyr | **CH1** | Heddlu, Uned PDC, Gorwel a'r Hwb Dioddefwyr | 26. Llwybrau cyfeirio addas wedi adnabod ✓ | Cwblhawyd. Cytundeb wedi cyflawni ar sut i gysylltu a dioddefwyr | G |
| | • Cyfrannu tuag at trafodaethau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref parthed dyfodol Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD) i sicrhau fod mewnbwn lleol yn ffurfio rhan o'r drafodaeth | **CH3** | Amlasiantaeth | 27. Sicrhau cytundeb ar sut i gysylltu â dioddefwyr ✓ | Barn lleol wedi cael ei fwydo mewn i'r broses. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a fydd yn cael eu gweithredu ar gyfer unrhyw ALlD yn y dyfodol | G |
| | • Gweithredu'n effeithiol ar gyfrifoldebau ALlD ar draws y ddwy sir pan fydd angen | **Mae pob adolygiad ALlD yn broses 2-3 mlynedd** | Cyfrifoldeb PDC | 28. Barn lleol yn cael ei fwydo mewn i'r broses<br>29. Allbynnau o'r adroddiad yn cael ei weithredu'n lleol | 2 ALld yn parhau a thrafodir yn y PDC - mae pob un or cerrig Milltir wedi eu cyfarch -mae adolygiad o'r math yn cymryd oddeutu 2 flynedd i'w cwblhau | G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Adolygu'r polisi llwybr cyfeirio ar gyfer rhaglen Tadau Gofalgar i sicrhau nad yw'r risgiau o ddatgelu i'r troseddwr yn creu risg ychwanegol i'r dioddefwr | **CH1** | Grŵp Llywio MARAC | 30. Sicrhau bod pob ALID cyfredol neu i'r dyfodol ar y trywydd iawn | Cwblhawyd. Cytunwyd gan partneriaid priodol, proses newydd ar waith. | G |
| | • Adolygu'r llwybr cyfeirio ar gyfer rhannu *CID 16* gyda darparwyr trydydd sector er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RDDC, rheoli llwyth achosion, a disgwyliadau ar gyfer darparwyr y trydydd sector | **CH1** | Grŵp Llywio MARAC | 31. Llwybr cyfeirio i'w gytuno gyda'r darparwr gwasanaeth. Ni fydd cyfeiriadau uniongyrchol bellach yn cael eu gwneud o'r *MARAC* ✓<br>32. Llwybr cyfeirio i'w hadolygu, ei ddatblygu a'i weithredu rhwng partneriaid (Heddlu a'r Trydydd Sector) ✓ | Datblygwyd a chytunwyd llwybr cyfeirio newydd. | G |



| | |
|---|---|
| **5** | **Ffocws:** Cynyddu hyder i adrodd am drais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br>• Camfantesio ar blant yn rhywiol (CBR)<br>• Achosion risg uchel |

**Mesurau:**
1. Lefel y troseddau rhywiol
2. Nifer y troseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 28 | • Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | **CH4** | Cyfrifoldeb PDC | 33. Ymateb i faterion lleol a all godi | Dim materion wedi dod i sylw'r PDC | G |
| | • Craffu cynlluniau gwaith y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant i sicrhau bod negeseuon codi ymwybyddiaeth i blant a phobl ifanc yn digwydd ac yn addas | **CH3** | Cyfrifoldeb PDC | 34. PDC gyda'r wybodaeth berthnasol i drafod unrhyw fylchau ac i weithredu newid os angen ✓ | Mae negeseuon CSP wedi'u gwirio am berthnasedd ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu | G |
| | • Sicrhau dealltwriaeth o waith y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd i alluogi adnabod cyfleon | **CH2** | Cyfrifoldeb PDC | 35. Sefydlu cysylltiadau newydd a dealltwriaeth o waith y Bartneriaeth ✓ | Trafodaethau cychwynnol wedi ystyried y posibilrwydd o ddatblygu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ond fe sefydlwyd na fydd yn digwydd | G |
| | • Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol er mwyn asesu sut y gellid ei defnyddio'n lleol | **CH4** | Cyfrifoldeb PDC | 36. Adolygiad desg fwrdd wedi cwblhau, a deunydd priodol i'w ddefnyddio'n lleol os oes angen. | Adolygiad i ddechrau unwaith y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal (cyfeiriwch at gynnydd nodwyd yn allbwn 34 uchod) | G |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)** | | | | | |

| | |
|---|---|
| | • Trwyddedu tacsis: Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu Gorfodol a Gwahardd (DBS), ac yn y camau olaf o weithredu hyfforddiant diogelu gorfodol, fel gofyniad ar gyfer y drwydded. Partneriaid – Gwarchod y cyhoedd, Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Tîm ONYX (Cam fanteisio ar blant yn rhywiol): Wedi sefydlu oddi fewn timau lleol yr Heddlu ar gyfer mynd i'r afael a CBR. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai |

**6** **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal

- Cyflenwi cyffuriau cyfundrefnol
- Gyrru o dan ddylanwad cyffuriau

**Mesurau:**

**1.** Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau | Cynnydd | Statws cwblhau (CMG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 30 | • Parhau i ddatblygu bid cyfalaf ar gyfer pwrcasu adeilad newydd camddefnyddio sylweddau yng Nghaergybi (yn ddibynnol ar argaeledd o gyllid cyfalaf yn 18-19) | **CH3** | Rhiannon Mair | 37. Os oes cyllid ar gael; cynnig llwyddiannus yn cael ei dderbyn ✓ | Cyllid wedi cymeradwyo ar gyfer pwrcasu a datblygu adeilad yng Nghaergybi, a cynlluniau yn cael ei datblygu. Bwrdd prosiect a Bwrdd Dylunio'r Adeilad yn cyfarfod yn Ionawr. Bwrdd Iechyd yn y broses o brynu'r adeilad. | G |
| | • Parhau i geisio adnabod adeilad addas ym Mangor ac o bosib i'w gynnwys fel menter ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd | **CH3** | Rhiannon Mair | 38. Trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd parthed menter ar y cyd ✓<br>39. Adnabod adeilad priodol a datblygu cynnig | Mae trafodaethau yn cymryd lle i ddatblygu prosiectau ym Mangor trwy'r Cynllun Adfywio Bangor a Prosiect 2025 sydd yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd. Trafodaethau cynnar parthed datblygu Canolfan Iechyd yn y Ddinas. Angen sicrhau ein bod yn bwydo i mewn i'r trafodaethau yma a bod anghenion Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn cael ei cynnwys. | M |
| | • Hyrwyddo a gwneud defnydd o taclo'r taclau ar bob cyfle priodol | **CH4** | Amlasiantaeth | 40. Adnabod cyfleon a gweithredu | Mae taclo'r taclau wedi hyrwyddo'n wythnos y glas, ac yng nghyfarfod craffu Ynys Môn, sy'n | G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 31 | | | | | cwmpasu sawl pwnc, gan gynnwys Llinellau Sirol, CRB ac ati. Hefyd, fe ddatblygwyd ganllaw cyflym ar gyfer gweithwyr | |
| | • Yn dilyn proffilio lleol o gangiau cyffuriau cyfundrefnol ym Mawrth, derbyn adroddiad gan ymgynghorwyr a chynnal trafodaethau lleol, i edrych ar ba weithred sydd angen yn deillio o'r adroddiad | **CH4** | Amlasiantaeth | 41. Derbyn ac adolygu adroddiad lleol ✓<br>42. Ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu lleol sy'n ofynnol | Adroddiad wedi dderbyn a sefydlwyd grŵp *OCG* newydd | G |
| | • Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd llinellau sirol *(county lines)*, fel sy'n briodol drwy'r flwyddyn | **CH4** | Heddlu | 43. Adnabod achlysuron o godi ymwybyddiaeth | Cyflwyniadau llinellau sirol wedi gyflawni i aelodau Ynys Môn. Sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi trefnu i'r PDC ac aelodau etholedig Gwynedd yn ystod y chwarter gyntaf. | G |
| | • Datblygu adnodd arbenigol camddefnyddio sylweddau oddi fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn (adran teuluoedd gwydn) gyda chyfraniad gan y Bwrdd Cynllunio Ardal | **CH2** | Rhiannon Mair | 44. Adnodd wedi adnabod ac yn ei le | Cyllid wedi adnabod o fewn cyllideb y BCA. Mae'r adnodd yma yn rhan o Gynllun Ataliol Plant a Theuluoedd Môn ac y bwriad yw cael yr adnodd yma mewn lle erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. | G |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Arolwg diogelwch tân yn y cartref: Arolwg ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus oherwydd camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Unigolion sy'n destun Gorchymyn Adferiad Cyffuriau: Cwrs gorfodol ar iechyd a lles, fydd yn pwysleisio ymarferion i leihau niwed – Gwasanaeth Prawf Cymru
- Hyrwyddo ymgyrchoedd lleol: Hyrwyddo ymgyrch diogelwch y ffyrdd y 5 angheuol, i godi ymwybyddiaeth o yfed o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub

| | |
|---|---|
| | • Ymgyrch RATTLE: Targedu y rhai sy'n delio cyffuriau yng Ngwynedd a Môn. Partneriaid – Heddlu, Cynghorau |
| **7** | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**2.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro oed 18+ (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro, oedran 12-17(3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd) |

| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2018/19** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** | **Cynnydd** | **Statws cwblhau (CMG)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 32 | • Angen cryfhau rhannu gwybodaeth rhwng Prawf a Gwarchod y Cyhoedd; ceisio gwneud hyn drwy y grŵp newydd gangiau cyffuriau cyfundrefnol | **CH2** | Amlasiantaeth | 45. Gwellha rhannu gwybodaeth a deallusrwydd ✓ | Cwblhawyd. Grŵp *OCG* wedi sefydlu gyda aelodau allweddol yn mynychu. | G |
| | • Sefydlu rhestr cysylltiadau amlasiantaeth ac i'w ddiweddaru yn chwarterol | **CH4** | Amlasiantaeth | 46. Creu rhestr cyswllt amlasiantaeth wedi'i ddiweddaru'n chwarterol gan partneriaid | Rhestr wedi creu, lledaenu a diweddaru gan holl bartneriaid. | G |
| | • Sicrhau trawsnewid effeithiol o'r GCI i wasanaethau Prawf a Chwmni Adsefydlu Cymunedol | **CH1** | Prawf, GCI a CAC | 47. Trafodaethau i'w gynnal, a threfniant newydd i gytuno ac i'w rhoi ar waith ar gyfer trawsnewid ✓ | Cwblhawyd. Trafodaethau wedi cynnal a chytunwyd strwythur newydd rhwng Prawf, GCI a Cwmni Adsefydlu Cymunedol | G |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd blaenoriaeth)**

- Ymgyrch Phoenix: targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o droseddu neu aildroseddu a'u cynnwys mewn gweithgareddau positif. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.
- Prosiect WISDOM: Ymateb amlasiantaethol i ail droseddwyr risg uchel wedi sefydlu oddi fewn un o adeilad y Cyngor. Partneriaid – Heddlu (Uned Gwarchod y Cyhoedd) a Prawf (Uned troseddwyr rhywiol a threisgar)
- Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ar ôl euogfarn (CBO): Gorchymyn ar ôl euogfarn sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf difrifol a pharhaus. Partneriaid - Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd, Prawf

| | |
|---|---|
| | • Ymyrraeth Gynnar (EIT): Ymateb amlasiantaeth ymyrraeth cynnar. Partneriaid – Arweinir gan yr Heddlu , amlasiantaeth |

# Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru

Tra bo Bwrdd Cymunedau Diogel GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnyddio technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol ganolbwyntio ar:

## 1. Rhwystro Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cynyddu'r gyfradd adrodd am Droseddau Casineb
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer yr ail-droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac YGG ar gyfer ddioddefwyr a throseddwyr
- Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

## 2. Lleihau niwed a'r risg o niwed

- Lleihau camddefnyddio sylweddau
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol
- Monitro Tensiynau Cymunedol

## 3. Darparu Ymateb Effeithiol

- Lleihau aildroseddu
- Deall a mynd i'r afael ag effeithiau ymfudo ar yr agenda diogelwch cymunedol

## Cynllun lleol Gwynedd ac Ynys Môn

Mae’n cynllun lleol yn edrych i weithredu’r penawdau uchod, ac yn seiliedig ar bwysigrwydd pob un yma yng Ngwynedd ac Ynys Môn, bydd rhai materion yn cael mwy o sylw nag eraill. Hefyd, mae rhai rhaglenni gwaith yn digwydd yn Rhanbarthol, ac efallai na fyddwn ond yn adnabod y gwaith hwn yn ein cynllun lleol.

Bwriad y cynllun dilynol ar gyfer 2019/20 yw adeiladu ar y gwaith eang a wnaed dros y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at leihad sylweddol mewn Trosedd ac Anrhefn yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod troseddu yn ei gyfanrwydd wedi cynyddu ar draws y wlad yn ddiweddar. Rydym hefyd yn adnabod bod math o droseddau nad ydym wedi delio â hwy o’r blaen yn dod i’r amlwg, ac mae angen cydweithio mewn ffyrdd gwahanol i’w taclo.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2019 a thu hwnt. Bydd y cynllun yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn. Bydd y cynllun hefyd yn ystyried yr asesiad strategol, yn ogystal â'r canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol.

Gweler isod ein prif flaenoriaethau, gyda rhestr o faterion yr ydym am fynd i’r afael â hwy yn ystod y flwyddyn. Mae’r cynllun yn un byw, ac felly fe all newid yn ystod y cyfnod er mwyn ymateb i newidiadau a sialensiau newydd.

Camau gweithredol ar gyfer datblygu ein strwythurau i'r dyfodol

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau a deilliannau |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i edrych ar resymoli ein strwythurau cydweithio rhanbarthol. Y bwriad yw creu strwythurau sy'n fwy effeithlon ar gyfer ein gwaith aml-asiantaethol i'r dyfodol. Yn lleol, byddwn yn cymryd rhan yn y broses ac yn ymateb yn lleol i'r newidiadau. | | Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru. | Bydd y gwaith o lunio opsiynau yn cael ei gyflawni gan y Bwrdd Rhanbarthol, ac wedi i'r newidiadau gael eu cytuno, bydd partneriaid yn gweithredu fel yr angen. Bydd hyn yn galluogi asiantaethau i weithio mewn ffordd fwy effeithiol i'r dyfodol. |
| | • Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiect penodol i edrych ar wella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i faterion cyfiawnder troseddol. Bydd y bartneriaeth leol yn ystyried y rhaglen waith mae Llywodraeth Cymru wedi'i datblygu, ac yn sicrhau ymrwymiad ac ymateb i'r gofynion. | Bydd y gwaith yn datblygu dros y flwyddyn hon, ac o bosib bydd yn parhau i 2020. Adroddiad ar gynnydd yn (Ch3). | Llywodraeth Cymru – Bwrdd prosiect Aelodau'r Bartneriaeth | Bydd y Bartneriaeth yn ymrwymo i dderbyn gwybodaeth am disgwyliadau'r rhaglen, ac yn ymateb yn seiliedig ar benderfyniadau lleol. Drwy fanteisio ar yr hyn sy'n ddefnyddiol ac o werth i ni yn y rhaglen arfaethedig, bydd ein gallu i ymateb i droseddu yn gwella ar draws y rhanbarth. |

| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019**<br>**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad Targed** | **Allbynnau** |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)<br>• Troseddau wrth ddefnyddio technoleg<br>• Byrgleriaeth ddomestig<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Pob trosedd sy'n seiliedig ar y ddioddefwr<br>**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**3.** Byrgleriaeth breswyl (dangosydd newydd) | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Mae'r bartneriaeth wedi adnabod bod angen codi ymwybyddiaeth plant ynghylch troseddau penodol sy'n seiliedig ar ecsploetiaeth er budd eraill - troseddau Llinellau Sirol yn bennaf. Mae'r Cynllun Schoolbeat am ledaenu'r gwersi yn ein hysgolion, gan gynnwys datblygiadau yn y maes hwn, yn ogystal â gwybodaeth am droseddau yn defnyddio cyllyll, a cham-fanteisio ar blant yn rhywiol. | Rhaglen yn fyw drwy gyfnod y flwyddyn (Ch4). | Heddlu/Addysg - https://www.schoolbeat.org/en/partners/county-lines/ | Gwybodaeth wedi ei rhannu gyda phlant yn ein hysgolion. Adnabod nifer yr ysgolion sydd wedi derbyn y sesiynau yn ystod y flwyddyn. Sesiynau sy'n eu galluogi i adnabod sefyllfaoedd peryglus, a gwybod beth i'w wneud a lle i adrodd am hynny. |
| | • Cydnabyddir bod troseddau meddiangar yn defnyddio technoleg ar gynnydd. Mae'r heddlu yn arwain ar y maes gorfodaeth ac mae uned arbennig yn weithredol i ddelio â'r materion. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r math a nifer y troseddau hyn ar gyfer y bartneriaeth, er mwyn adnabod cyfleoedd posib i godi ymwybyddiaeth neu dargedu ymyrraeth gynnar. | Adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn, er mwyn adnabod tueddiadau a allai arwain at weithredu pellach. | Dadansoddwr y bartneriaeth, a'r aelodau parthed gweithredu pellach. | Dadansoddiad ar gael o'r troseddau y mae'r uned arbennig yn delio â hwy yn ystod y flwyddyn. Hyn yn galluogi i'r bartneriaeth ymateb parthed adnabod cyfleoedd neu beidio. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Rydym yn ymwybodol bod troseddau sy'n defnyddio 'sgamiau' ar gynnydd. Mae'r Heddlu, a'r gwasanaethau Safonau Masnach yn y ddwy Sir am gydweithio ar brosiect codi ymwybyddiaeth drwy weithredu cynllun 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer y sector gwirfoddol. Bydd hyn yn galluogi pobl sy'n gweithio ac yn cael cyswllt gyda'r cyhoedd, i rannu gwybodaeth o ran sut i adnabod sgamiau, yn enwedig gyda phobl sydd o bosib yn fwy tueddol o gael eu targedu, megis pobl hŷn. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch2). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach y ddwy Sir | Bydd gwybodaeth ar gael parthed faint o bobl yr ydym wedi eu hyfforddi. Yna, bydd y wybodaeth hon ar gael gan y sector sy'n debygol o gael mwy o gyswllt â phobl a all fod yn darged i sgamiau, a dylanwadu arnynt. |
| | • Hefyd mewn perthynas â'r materion uchod, bydd yr Heddlu a'r gwasanaethau Safonau Masnach, yn defnyddio Bws i godi ymwybyddiaeth o droseddau technegol (Seiber) ar draws ein cymunedau (bws sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl gyda'r negeseuon pwysig o ran sut i adnabod sgamiau ac adrodd amdanynt. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch2). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach y ddwy Sir | Byddwn yn nodi nifer y lleoliadau y mae'r bws wedi'i gyrraedd, a faint o bobl sydd wedi derbyn gwybodaeth a chyngor. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i bobl dderbyn gwybodaeth wyneb-yn-wyneb gan arbenigwyr yn eu cymunedau, a lleihau'r tebygrwydd fod pobl yn cael eu sgamio. |
| | • Ar ôl iddynt gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i'r cyhoedd ar faterion diogelu, mae Cyngor Ynys Môn wedi nodi bod angen sicrhau gwell mynediad i wybodaeth ar faterion sgamio. | Yn ystod chwarter un, adroddiad ar gynnydd (Ch1). | Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn | Bydd gwybodaeth benodol, yn seiliedig ar y prif faterion a godwyd yn y sesiwn diogelu, nawr yn cael ei gosod ar wefan y Cyngor. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i'r cyhoedd ddod o hyd i'r wybodaeth y maent ei hangen i'w cynorthwyo i adnabod troseddau o'r fath. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Sgamiau wrth ddefnyddio technoleg a phost: Addysgu a chynghori defnyddwyr, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu<br>• Protocol bancio: Cynllun yn galluogi gweithwyr y banc i adrodd i'r Heddlu os oes amheuaeth o dwyll. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu<br>• *TITAN* Gogledd-orllewin: Cynrychiolaeth ar grŵp Troseddau cyfundrefnol y Gogledd-orllewin. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd<br>• Troseddau carreg drws Cymru gyfan: Ymgyrch i fynd i'r afael â throseddau carreg drws yng Nghymru. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu<br>• Unedau ymroddedig i droseddau Uwch-dechnoleg a throseddau wrth ddefnyddio technoleg. Partneriaid – Heddlu | | | |

| 2 | **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Mae'r heddlu wedi adnabod bod angen ail-edrych ar y grwpiau gweithredol YG, er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau prin pob asiantaeth yn effeithiol. Fel rhan o adolygiad ehangach o grwpiau aml-asiantaethol lleol, bydd asesiad yn cael ei wneud i weld beth yw'r strwythurau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. | | Heddlu i arwain, pawb i gyfrannu sylwadau. | Bydd strwythur grwpiau newydd mewn lle. Felly, bydd ymrwymiad amser gweithwyr i'r grwpiau yn fwy effeithiol, ac felly, ein hymateb i'r materion dan sylw yn effeithlon. |
| | • Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (Ynys Môn) wedi adnabod nad yw rhai cleientiaid yn derbyn gwasanaeth addas bob tro, yn sgil trothwyon y gwasanaethau, er eu bod yn cyflwyno i wasanaethau yn aml. Yn benodol, mae hyn yn wir o ran y ddealltwriaeth o alluoedd meddyliol/penderfyniadau annoeth/cymryd risgiau. Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn arwain ar y gwaith o feithrin dealltwriaeth gyfunol o'r materion dan sylw. | | Gwasanaethau Oedolion i arwain, pawb i ymrwymo. | Bydd sgyrsiau/sesiynau gwella dealltwriaeth wedi digwydd. Felly, bydd gan yr asiantaethau penodol well dealltwriaeth o natur problemau unigolion, ac felly, bydd modd iddynt ymateb yn seiliedig ar angen ac nid yn seiliedig ar drothwyon y gwasanaeth yn unig. |
| | • Sefydlu fframwaith fydd yn galluogi rhannu gwybodaeth i gefnogi parhad y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) ac edrych ar y posibilrwydd o gael gorchymyn newydd ym Mangor. Bydd rhaid edrych ar ba wybodaeth sydd ar gael, neu sydd angen bod ar gael gan yr Heddlu, i brofi gwerth y gorchmynion cyfredol. Hefyd, yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o ddarparu gorchymyn newydd ym Mangor. | | Dadansoddwr yr Heddlu, Heddlu lleol a swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd. | Bydd y wybodaeth berthnasol wedi ei hadnabod, a'i chasglu. Felly, defnyddir y ddeddfwriaeth yn fwy effeithlon, yn berthnasol i'r angen, ond hefyd ystyrir yr adnoddau sydd wirioneddol ar gael ar gyfer eu gweithredu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae Cyngor Ynys Môn wedi adnabod fod trafod materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn ffordd amserol gyda'n tenantiaid yn y gymuned yn helpu i ddatrys materion yn gynnar. Felly, yn ystod 2019, bydd swyddogion y gwasanaethau Tai a'r Heddlu yn cynnal sesiynau galw heibio yn rheolaidd ar gyfer trafod materion gyda thrigolion. | Cynllun yn weithredol drwy'r flwyddyn, asesu cynnydd ar y diwedd, ac adrodd (ch4). | Gwasanaeth Tai Ynys Môn a'r Heddlu | Byddwn yn adnabod faint o alw sydd ar y sesiynau, a'r math o faterion sy'n cael eu hadnabod, ac yn derbyn sylw cynnar. Bydd tenantiaid yn teimlo bod eu problemau'n cael sylw amserol, bod y gwasanaethau yn weledol yn ein stadau tai, a bod sylw priodol yn cael ei roi i bryderon unigolion. |
| | • Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) y ddwy Sir, a'r Heddlu, wedi adnabod yr angen i ail-edrych ar y prosesau o ymdrin â phlant sy'n creu trafferthion oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n amlwg bod angen dod â'r gwasanaeth cyfiawnder i mewn i'r broses yn gynnar, er mwyn sicrhau gwarchodaeth a chefnogaeth i'r plentyn yn ogystal â delio gyda'r materion ynghlwm â'r drosedd. Yn ogystal, mae asiantaethau, ar y cyd am ail-edrych ar y systemau o reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ddefnyddio 'cerdyn melyn' ar gyfer plant. | Cynllun yn weithredol yn ystod 2019/20. Adrodd am gynnydd yn (Ch2). | Grŵp rheoli gweithredol GCI | Bydd proses newydd yn cael ei datblygu gan y Bwrdd gweithredol, ac yna'n cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau gwelliant yn y broses. Bydd y plant sy'n dod i sylw'r Heddlu yn cael pob cefnogaeth i droi cefn ar droseddu.<br><br>Pwrpas yr adolygiadau yw sicrhau bod pob cyfle yn cael ei adnabod, i sicrhau nad yw'r plant hyn yn mynd ymlaen i fod yn droseddwyr i'r dyfodol. |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Tîm ymyrraeth gynnar: Dull Aml-asiantaethol i weithredu ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol. Partneriaid: Heddlu, Asiantaethau Tai ac eraill yn ôl yr angen.
- Gwerthiant cynnyrch gyda chyfyngiad oedran i rai dan oed: Gwaith gorfodaeth ac ataliol parthed gwerthu cynnyrch gyda chyfyngiad oedran, sef alcohol, tân gwyllt ac ati, yn cynnwys pryniannau prawf. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu
- Ymgyrchoedd lleol/diwrnodau codi ymwybyddiaeth: Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd penodol, e.e. codi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, noson tân gwyllt/Calan Gaeaf. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd, Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub
- Llygredd sŵn: Monitro llygredd sŵn gan gynnwys defnyddio *app* Môn i gasglu tystiolaeth i arwain at gamau gorfodaeth. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn a'r Heddlu
- Trwyddedu eiddo: Adolygu amodau ac amcanion trwydded pan fo'r angen. Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu
- Ymgyrch MICRA – Targedu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yng Nghaernarfon. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg

| | |
|---|---|
| | • Ymgyrch Wax – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd wedi bod yn destun pryder yn y gymuned leol. Parhaus<br>• Ymgyrch Circuit – Troseddau'n seiliedig ar YGG yng Nghaergybi. Partneriaid – Heddlu ar y cyd â chlwb ieuenctid Canolfan Jessie Hughes, Yr Hwb, Pod Ieuenctid, Gwelfor, Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>• Grŵp tasg YGG Gwynedd: Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Partneriaid – Heddlu (dull aml-asiantaethol)<br>• Ymgymryd â gwaith ataliol yn y maes gwerthu alcohol dan oed - cynghori busnesau, hyrwyddo Her 25, cynnal profion prynu, a gorfodaeth yn ôl yr angen. Partneriaid - Safonau Masnach a thrwyddedu yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu |



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **Ffocws:** Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd<br>• Caethwasiaeth fodern<br>• Troseddau casineb<br>• Monitro tensiynau cymunedol<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**2.** Nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern (dangosydd newydd)<br>**3.** Nifer yr adroddiadau am droseddau casineb (dangosydd newydd) | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PDC drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. Bydd y llwybr cyfeirio newydd yn cael ei weithredu'n lleol, a bydd codi ymwybyddiaeth yn rhan o waith craidd yr asiantaethau. | Adrodd i'r PDC yn ôl yr angen, os bydd rhwystrau lleol. | Bwrdd Rhanbarthol<br>Aelodau'r Bartneriaeth | Bydd rhaglen waith y bwrdd rhanbarthol yn cael ei monitro yn rhanbarthol. Bydd y bartneriaeth leol yn delio gydag unrhyw faterion o danberfformiad lleol, ac adroddir ar hyn yn y bwrdd rhanbarthol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae partneriaid wedi adnabod fod y sialens o ddelio gyda'r troseddau parthed Llinellau Sirol yn gymhleth ac angen mwy o sylw. Felly, fel rhanbarth, byddwn yn cydweithio gyda'r Heddlu i gasglu gwybodaeth ar draws y sectorau er mwyn deall ac adnabod maint y broblem. Bydd hyn yn cynnig sylfaen er mwyn mynd ati i adnabod sut i ymateb fel partneriaid mewn ffordd fwy effeithiol. | | Grŵp tasg rhanbarthol yn arwain. Dadansoddwyr yn yr Heddlu yn cydgordio. Aelodau'r bartneriaeth i rannu gwybodaeth. | Wrth rannu ein gwybodaeth fel partneriaid, bydd modd creu darlun mwy cynhwysfawr o natur y bygythiad a'r risg i ni yng Ngogledd Cymru parthed Llinellau Sirol. Bydd y wybodaeth yn rhan o'r cyd-gynllunio ar gyfer ein hymateb i'r broblem yn y dyfodol. |
| | • Mae troseddau lle mae defnydd o gyllyll ar gynnydd ar draws y wlad, ac er nad yw'r broblem yn yr ardal hon ar yr un raddfa a'r hyn a welir mewn ardaloedd eraill, mae angen ymateb i'r risg. Mae'r heddlu a'r gwasanaethau Safonau Masnach yng Ngwynedd yn cydweithio ar gynllun codi ymwybyddiaeth yn ein siopau perthnasol, o ran gwerthu cyllyll i blant a phobl ifanc. Bydd rhai siopau yn cael eu targedu hefyd am *'spot checks'* er mwyn canfod unrhyw dor-cyfraith posib, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a rhannu pecynnau gwybodaeth yn gyffredinol. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch1). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach Gwynedd | Bydd siopau perthnasol yn cael gwybodaeth a sgyrsiau pwrpasol gyda'r heddlu a SM, er mwyn eu hatgoffa o ddeddfwriaeth a goblygiadau gwerthu cyllyll i bobl dan oed. Bydd rhai siopau hefyd yn derbyn *'spot checks'* gan gadéts yr heddlu, er mwyn i ni allu adnabod tor-cyfraith. Bydd hyn yn galluogi siopau i wneud penderfyniadau doeth, yn ogystal â'u gwneud yn ymwybodol bod yr asiantaethau gorfodaeth yn cadw golwg ar y materion hyn. |
| | • Mae Cyngor Môn wedi adnabod ei bod yn bwysig i weithwyr ac Aelodau Etholedig fod yn gyfarwydd â'r prosesau a'r ddeddfwriaeth parthed ail-sefydlu troseddwyr risg uchel yn ein cymunedau. Mae dealltwriaeth yn arbed pobl rhag gorymateb a chamddeall y sefyllfa yn ein cymunedau. Felly, mae'r Cyngor, ynghyd â'r Heddlu a'r Gwasanaeth prawf, am drefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth. | Adroddiad ar gynnydd yn (Ch1). | Adran Dai Cyngor Ynys Môn – heddlu a'r gwasanaeth prawf | Bydd sesiynau addas yn cael eu trefnu, ac fe adroddir yn ôl ar nifer y mynychwyr. Wrth sicrhau fod Aelodau Etholedig a gweithwyr rheng flaen yn gwbl gyfarwydd gyda'r goblygiadau a strwythurau rheoli troseddwyr risg uchel yn ein cymunedau, maen nhw yn gallu ymateb yn well i bryderon y cyhoedd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus a'r Heddlu ar draws Cymru wedi cynllunio prosiect i ddatblygu gweithle sy'n fwy cyfarwydd gydag agenda Profiadau Newidiol Mewn Plentyndod (PNmP*) neu ACE - Adverse Childhood experiences*. Y bwriad yw sicrhau fod gweithwyr (yr Heddlu yn benodol) yn deall sut mae PNmP yn gallu effeithio ar unigolion, a defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau'r ymateb gorau bosib pan maen nhw yn dod i sylw gwasanaethau.<br><br>• Mae Gwasanaethau Tai Ynys Môn wedi adnabod cynnydd yn niferoedd y defnyddwyr gwasanaeth sy'n datgan bod ganddynt anghenion iechyd meddwl. Er mwyn sicrhau bod yr unigolion hyn yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, mae'r gwasanaeth wedi datblygu llwybr cefnogaeth a llety pwrpasol, ar y cyd â'r bwrdd iechyd. | Adrodd ar gynnydd yn Ynys Môn ( CH1) Gwynedd yn (Ch3)<br><br>Bydd y cynllun yn cael ei asesu o gwmpas Hydref 2019, felly adroddiad ar gynnydd yn (Ch3). | Tîm rhanbarthol yn arwain ar y gwaith. Partneriaid yn lleol i ymrwymo i fod yn rhan o'r datblygiad.<br><br>Adran Tai Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd lleol | Bydd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar draws y ddwy sir; gallwn fesur niferoedd y bobl sy'n eu derbyn, yn ogystal â sut effaith y mae hyn yn ei gael ar niferoedd y cyfeiriadau gan yr Heddlu i wasanaethau diogelu (un o'r allbynnau disgwyliedig yw y bydd llai o gyfeiriadau yn dod i Wasanaethau Cymdeithasol, gan y bydd gan yr Heddlu well dealltwriaeth o anghenion unigolion a sut i gyfeirio). Bydd unigolion yn cael ymateb mwy addas i'w hamgylchiadau gan wasanaethau rheng flaen.<br><br>Gan ddefnyddio'r 'Llwybr cefnogaeth a llety' clir ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, bydd llai o bosibilrwydd y bydd unigolion yn cael eu targedu gan eraill sydd eisiau manteisio arnynt a'u defnyddio nhw fel person, neu eu llety, ar gyfer hwyluso troseddau, e.e. ar gyfer dosbarthu cyffuriau. Nid dyma brif bwrpas y cynllun, ond mae'n cyfrannu at leihau'r cyfleoedd i gam-fanteisio. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)** | | | |

Tudalen 44

| 4 | **Ffocws:** Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaethol)<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y cam-drin domestig<br>**2.** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3.** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**4.** Nifer y troseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro (dangosydd newydd)<br>*Dangosydd newydd ychwanegol posib – nifer yr erlyniadau cam-drin domestig llwyddiannus | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys gweithredu'n lleol parthed anghenion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Hefyd, fel partneriaid, rydym am gyfrannu at yr asesiad anghenion rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i'r dyfodol. | Bydd dyddiadau gweithredu yn amrywio ar draws y rhanbarth. Adrodd ar gynnydd yn (Ch3). | Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Tân | Mae codi ymwybyddiaeth o faterion Trais yn y Cartref ar draws y sectorau, ac ymysg y cyhoedd, yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Wrth ymrwymo i'r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol, bydd gwasanaethau statudol yn hyfforddi'r gweithlu dros y blynyddoedd i ddod. Bydd modd adrodd ar nifer y bobl mae hyn yn effeithio arnynt dros y bum mlynedd i ddod - drwy waith y bwrdd rhanbarthol. |
| | • Fel Partneriaeth, mae cyfrifoldeb statudol arnom i ymateb i farwolaethau domestig, gan gynnal adolygiad. Mae'r bartneriaeth yn cynnal y 3ydd adolygiad o'r fath ar hyn o bryd, a byddwn yn sicrhau ymateb priodol i unrhyw adolygiad o'r fath i'r dyfodol. | Bydd yr adolygiadau yn parhau dros y cyfnod sydd angen i gyflawni – ar gyfartaledd o gwmpas 2 flynedd. Mae cynnydd pob chwarter wedi'i gynnwys fel eitem ar | Y bartneriaeth leol, a'r panel pwrpasol sydd yn ei le ar gyfer yr adolygiad. | Byddwn yn rhannu'r gwersi sy'n deillio o'r adolygiadau gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth. Bydd cynllun gweithredu wedi ei sefydlu ar gyfer pob adolygiad, a byddwn yn monitro'r gweithredu sy'n deillio ohono. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 45 | • Mae'r broses MARAC (*multi agency risk assessment conference*) yn bodoli ym mhob Sir. Dyma lle mae asiantaethau yn dod at ei gilydd i drafod dioddefwyr trais yn y cartref, lle maent mewn risg uchel o niwed, er mwyn cynllunio i'w gwarchod. Mae'r Heddlu, sy'n arwain ar hyn, wedi amlygu'r angen i ail-edrych ar y broses, ac adolygu lle bo'r angen.<br><br>• Mae Gwasanaethau Plant Ynys Môn wedi adnabod yr angen i adolygu cydweithio ar achosion sy'n cyrraedd y Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd (GICT), neu IFSS (*Integrated Family Support Services*). Dyma'r teuluoedd lle mae posibilrwydd y bydd y plant yn gorfod mynd i ofal. | agenda'r Bartneriaeth.<br><br>Adrodd ar gynnydd (CH2)<br><br>Bydd y peilot yn cymryd 3-6 mis. Adrodd ar gynnydd yn (Ch 3). | Aelodau'r Bwrdd Rhanbarthol, gyda'r heddlu'n arwain.<br><br>Gwasanaethau Plant Ynys Môn, gyda grŵp arwain yn rhedeg y peilot. | Posib y bydd y bwrdd rhanbarthol yn comisiynu corff allanol i gynnal yr adolygiad, ond bydd pob partner arall yn ymrwymo i'r broses drwy'r Bwrdd Rhanbarthol, a byddwn yn sicrhau bod anghenion lleol yn bwydo mewn i'r broses. Y bwriad yw sicrhau fod y broses yn gynaliadwy ac yn effeithiol i'r dyfodol, gan fod yr angen yn cynyddu.<br><br>Mae grŵp wedi dod at ei gilydd i edrych ar beilota ffordd ychydig yn wahanol o weithio gyda'r teuluoedd hyn, gan gynnwys tynnu mwy o wasanaethau trydydd sector i mewn. Teuluoedd gyda phroblemau trais yn y cartref fydd yn cael sylw'r peilot. Bydd y peilot yn digwydd er mwyn asesu effaith y newid yn gyntaf, cyn mynd ati i raeadru ymhellach. |

| 5 | **Ffocws:** Cynyddu hyder i adrodd am drais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br>• Cam-fanteisio ar blant yn rhywiol (CBR)<br>• Achosion risg uchel<br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y troseddau rhywiol<br>**2.** Nifer y troseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diweddar i adnabod ffurf effeithiol o ymdrin â throseddau o gam-fanteisio ar blant yr rhywiol neu CSE (*child sexual exploitation)* gan gynnwys deddfwriaeth newydd a chynllun ymateb rhanbarthol. Rydym hefyd wedi sefydlu grwpiau lleol yn y gwasanaethau plant i ddelio gyda materion o'r fath. Mae'r gwaith yn parhau –<br>o Bydd gwasanaethau safonau masnach Gwynedd yn gwneud hyfforddiant CSE yn orfodol i bawb sy'n dal trwydded gyrru tacsi o'r flwyddyn hon ymlaen.<br>o Bydd Cyngor Ynys Môn yn gwneud hyfforddiant CSE yn orfodol i holl weithlu'r Cyngor. Yn ogystal, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant i'r gweithlu ar CSE, ac yn datblygu pecynnau. | Adrodd ar gynnydd (Ch3) | Yr holl bartneriaid i ymateb i'r fframwaith cydweithio. Safonau Masnach Gwynedd. Gwasanaethau plant y ddwy Sir. | Mae modd asesu nifer y gyrwyr tacsi yn Ynys Môn sy'n cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant. Bydd y Cynghorau'n asesu faint o bobl sydd wedi cael hyfforddiant, yn ogystal ag unrhyw fylchau sydd angen sylw. Y bwriad yw sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o sut i adnabod CSE ac ymdrin ag ef. |
| | • Mae gwasanaethau wedi adnabod bod mwy o achosion yn dod i sylw mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol (ymysg plant). Felly, mae'r ddau Gyngor yn edrych ar ffurf o allu ymateb i hyn yn effeithiol i'r dyfodol. | Bydd y datblygiad hwn yn waith mwy hirdymor. Adrodd ar gynnydd (Ch4). | Gwasanaethau plant y ddwy Sir | Bydd gwasanaethau plant Ynys Môn yn datblygu hyfforddiant addas ar gyfer gweithwyr a allai ddod ar draws y materion hyn, ac yn adnabod rhai gweithwyr y gellid eu datblygu i arbenigo mwy yn y maes. Bydd gwasanaethau plant Gwynedd hefyd yn ymgeisio am arian penodol ar gyfer |

Tudalen 46

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygu'r adnodd arbenigol yn y gwasanaeth. Yn y dyfodol felly, bydd gwell dealltwriaeth ac ymateb i achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol, a bydd modd adnabod nifer o yr achosion sy'n dod i sylw. Hefyd, bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn mynd ati i osod arweiniad i wasanaethau ar gyfer gweithredu yn effeithiol. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Trwyddedu tacsis: Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu Gorfodol a Gwahardd (DBS), ac yn y camau olaf o weithredu hyfforddiant diogelu gorfodol fel gofyniad ar gyfer y drwydded. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd, Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>• Tîm ONYX Cam-fanteisio ar blant yn rhywiol (CBR): Wedi sefydlu yn nhimau lleol yr Heddlu er mwyn mynd i'r afael â CBR. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai | | | |

Tudalen 47

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6** | **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br>• Cyflenwi cyffuriau cyfundrefnol<br>• Gyrru dan ddylanwad cyffuriau<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| | • Wedi adnabod yr angen am adeilad mwy addas ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Ynys Môn, mae'r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol (BCR) neu'r *APB (Area Planning Board)* wedi derbyn arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i brynu adeilad addas yng Nghaergybi. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd | Bydd y gwaith yn parhau hyd at 2020/21, adrodd ar gynnydd yn ystod (Ch4) | Bwrdd cynllunio rhanbarthol | Rydym bob amser eisiau annog unigolion i dderbyn cefnogaeth a thriniaeth pan fo ganddynt anghenion yn deillio o gamddefnyddio sylweddau. Mae cael darpariaeth addas ac o ansawdd yn rhan fawr o gyflawni'r weledigaeth hon. Bydd modd adrodd yn ôl ar y ffordd mae'r gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth yn adnabod gwelliannau yn y ddarpariaeth. |

Tudalen 48

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar yr adeilad. | | | |
| | • Mae adnabod adeilad newydd addas ym Mangor hefyd yn flaenoriaeth. Mae'r bwrdd iechyd yn edrych ar gyfleoedd, a bydd y bwrdd rhanbarthol yn cydweithio â hwy i ymgeisio am arian cyfalaf newydd, petai cyfleoedd yn codi. | Dim amserlen benodol - adrodd fel y daw cyfleoedd | Bwrdd cynllunio rhanbarthol | Ein bwriad yw ystyried unrhyw gyfle i adnabod adeilad addas ar gyfer y gwasanaeth triniaeth ym Mangor. Hyd nes y bydd hyn yn digwydd, mae'r gwasanaethau'n gweithio o adeiladau partneriaid. |
| | • Mae'r bwrdd cynllunio rhanbarthol wedi adnabod bod angen edrych ar gynllun rhanbarthol penodol ar gyfer alcohol. Bydd y bartneriaeth leol yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn, ac yn gweithredu fel bo'r angen. | Chwe mis ar gyfer paratoi strategaeth ddrafft. Adrodd ar gynnydd (Ch3). | Bwrdd cynllunio rhanbarthol, a'r grŵp datblygu cynllun. | Rydym yn adnabod fod alcohol yn gallu achosi niwed i unigolion, teuluoedd a chymunedau, a bod angen edrych ar dystiolaeth o ran beth sy'n gweithio, er mwyn creu strategaeth i leihau'r niwed. Bydd yr holl bartneriaid yn ymrwymo i wireddu'r strategaeth, gyda'r bwriad o leihau'r niwed y mae camddefnyddio alcohol yn gallu ei achosi. Bydd y strategaeth yn adnabod ffurf o asesu'r effaith fel rhan o'r datblygiad. |
| | • Yn dilyn adolygiad ar draws y rhanbarth parthed y ddarpariaeth o wasanaethau rheng 2, sef ymestyn allan/gwasanaeth galw i mewn, rydym wedi adnabod yr angen i ddarparu mwy o wasanaethau o'r fath. Felly, bydd mwy o adnoddau ar gael drwy'r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau yn lleol dros y ddwy Sir. | Adrodd ar gynnydd (Ch3). | Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol | Bydd gwaith cynllunio'n digwydd rhwng y partneriaid er mwyn adnabod pa fath o wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen yn y ddwy Sir, ac ymhle. Yna, byddwn yn datblygu gwasanaethu newydd ac yn monitro'r effaith dros gyfnod y contractau. Y bwriad yw sicrhau bod unigolion sy'n ffafrio gwasanaethau yn y gymuned, a rhai llai ffurfiol, yn dod ymlaen i dderbyn cefnogaeth. |
| | • Rydym wedi adnabod bod angen edrych ar ein gweithlu, ac asesu p'un a oes digon o ymwybyddiaeth yn bodoli parthed 'rhiant (rhieni) yn rhoi cyffuriau i'w plant'. Nid yw hon | | | Xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn drosedd sy'n digwydd yn aml, ond mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod gweithwyr rheng flaen yn ymwybodol o'r materion a sut i ymdrin â hwy.<br><br>• Rydym wedi adnabod yr angen i gryfhau'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig i deuluoedd yn Ynys Môn, lle mae materion camddefnyddio sylweddau/iechyd meddwl. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yng Ngwynedd yn barod, drwy arian gan y bwrdd cynllunio ardal. Felly, rydym am ddatblygu adnodd ychwanegol yng Ngwasanaethau Plant Ynys Môn. | Adnodd yn ei le erbyn mis Ebrill. Adrodd ar gynnydd (Ch 2). | Bwrdd cynllunio ardal/Gwasanaethau plant Ynys Môn | Bydd y swydd hon yn ychwanegu at wydnwch a gallu teuluoedd i ddelio â'r materion hyn, ac felly, bydd llai o deuluoedd yn datblygu i fod angen gwasanaethau mwy dwys. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Arolwg diogelwch tân yn y cartref: Arolwg ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus yn sgil camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a'r Bwrdd Iechyd Lleol.<br>• Unigolion sy'n destun Gorchymyn Adferiad Cyffuriau: Cwrs gorfodol ar iechyd a lles, fydd yn pwysleisio ymarferion i leihau niwed – Gwasanaeth Prawf Cymru<br>• Hyrwyddo ymgyrchoedd lleol: Hyrwyddo ymgyrch diogelwch y ffyrdd y 5 angheuol, i godi ymwybyddiaeth o yfed dan ddylanwad alcohol/cyffuriau. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub<br>• Ymgyrch RATTLE: Targedu'r rhai sy'n delio cyffuriau yng Ngwynedd a Môn. Partneriaid – Heddlu, Cynghorau | | | |

| 7 | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**2.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro oed 18+ (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**3.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro, oedran 12-17(3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** |
| Tudalen 50 | • Mae'r Bwrdd Rhanbarthol wedi ystyried sefydlu Bwrdd Rheoli Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder ieuenctid. Os bydd Bwrdd yn cael ei sefydlu, bydd cyfleoedd i rannu ymarfer da. Ond, gan fod gennym Fyrddau Rheoli lleol hefyd, byddwn yn adolygu'r trefniant i sicrhau nad oes dyblygu gwaith, nac unrhyw golled i fuddion lleol, wrth weithredu yn y ffordd newydd. | | Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru i'w sefydlu. Byrddau rheoli lleol i ymrwymo i'r trefniant. | Mae hwn yn gyfle i dreialu trefniant rhanbarthol, a all fod o fudd i wasanaethau Cyfiawnder ieuenctid, ac o bosib rannu gwaith datblygol ar draws y rhanbarth. Serch hyn, rydym am asesu effaith y Bwrdd newydd, ac os nad oes budd, byddwn yn barod i ddychwelyd i'r trefniant cyfredol. |
| | • Mae gwasanaeth Cyfiawnder ieuenctid y ddwy Sir wedi adolygu strwythurau ac wedi penderfynu sefydlu strategaeth newydd. Bydd hyn yn arwain at gynllun sy'n fwy effeithiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac yn gallu rhoi ystyriaeth i'r mathau o droseddau newydd yr ydym yn eu gweld yn datblygu, megis Llinellau Sirol. | Bydd cynllun strategol 2 flynedd, a chynllun gweithredu yn eu lle erbyn 5ed o Awst | Bwrdd rheoli gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol<br><br>Bwrdd gweithredol gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol | Bydd strategaethau newydd yn eu lle, sydd wedi eu datblygu i ymateb yn fwy effeithiol i'r materion sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. |
| | • Mae'r cynllun rheoli troseddwyr mewn ffordd integredig neu (*IOM – Integrated offender management)* am newid y mathau o droseddwyr sydd am gael eu targedu. Rydym wedi adnabod mai dyma'r unigolion sy'n achosi'r niwed mwyaf i gymunedau. | Yn weithredol drwy'r flwyddyn. Asesu bob chwe mis gan gychwyn gyda (Ch2). | Bwrdd strategol IOM rhanbarthol | Mae'r cynllun yn gyfle i droseddwyr dderbyn cefnogaeth i'w helpu i roi'r gorau i droseddu. Y bobl fydd yn cael eu targedu o hyn allan fydd y rhai sydd wedi eu cyhuddo o drais yn y cartref neu droseddau yn gysylltiedig â gangiau troseddu cyfundrefnol. Bydd hyn yn galluogi'r cynllun i weithio gydag unigolion yr ydym yn eu hystyried sy'n achosi'r niwed mwyaf i gymunedau. Dylem weld lleihad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn nifer y troseddau gan yr unigolion hyn; mae'r rhai sy'n parhau i droseddu yn cael eu herlyn. |
| | • Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI) yn adnabod bod nifer fawr o'r plant sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth yn dioddef o broblemau sy'n gysylltiedig â 'thrawma ac ymlyniad' (*attachment and trauma related issues)*. Felly, er mwyn torri'r cylch o ymddygiad gwael a throseddu, mae'n rhaid ymateb yn briodol i anghenion y plant hyn. | Hyfforddiant yn ystod (Ch1). Cynllun i weithredu'r dysgu (Ch 3). Bydd monitro'r allbynnau yn mynd ymlaen i 2020. | Gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn | Wrth hyfforddi'r gweithlu ar y ffyrdd gorau o ymateb a gweithio â phlant sydd wedi dioddef o faterion yn gysylltiedig â thrawma ac/neu ymlyniad, bydd gwell allbynnau i'r plant, a hefyd bydd llai o siawns iddynt fynd ymlaen i droseddu rhagor. Eisoes, dengys tystiolaeth genedlaethol fod y math hwn o ymateb yn gweithio. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd blaenoriaeth)**<br><br>• Ymgyrch Phoenix: targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o droseddu neu ail-droseddu a'u cynnwys mewn gweithgareddau cadarnhaol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.<br>• Prosiect WISDOM: Ymateb aml-asiantaethol i ail-droseddwyr risg uchel wedi sefydlu yn un o adeiladau'r Cyngor. Partneriaid – Heddlu (Uned Gwarchod y Cyhoedd) a Phrawf (Uned troseddwyr rhywiol a threisgar)<br>• Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ar ôl euogfarn (CBO): Gorchymyn ar ôl euogfarn gyda'r nod o fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf difrifol a pharhaus. Partneriaid - Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd, Prawf<br>• Ymyrraeth Gynnar (EIT): Ymateb aml-asiantaethol ymyrraeth cynnar. Partneriaid – Arweinir gan yr Heddlu , aml-asiantaethol | | | |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 12fed Tachwedd 2019 |
| **Pwnc:** | Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adolygu trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a diweddariad ar waith yr is-grwpiau. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau ar strwythur llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- Cynnwys

| |
|---|
| |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gylch gorchwyl wedi'i gytuno a sut mae'r Bwrdd yn cynllunio a rheoli ei flaen raglen waith?<br>2. Sut mae'r Bwrdd yn adnabod, rheoli a lliniaru risgiau?<br>3. O ran cyflawni rhaglenni gwaith allweddol, pa sicrwydd sydd mewn lle bydd y Bwrdd yn cyflawni cerrig milltir allweddol yn amserol? |

## 5. – Cefndir / Cyd-destun

### 5.1 Cyflwyniad a chyd-destun

**5.1.1** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.2** Er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cynhaliwyd asesiadau Llesiant ar draws ardaloedd Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn ac yn sgil hynny cafwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori. Cyfrannodd yr holl waith hynny at gyhoeddi'r Cynllun Llesiant ym 2018: https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-94-2-Cynllun-Llesiant-Gwynedd-a-Mon.pdf
Ceir gadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a chyfrifoldeb y Bwrdd yw ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

### 5.2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**5.2.1** Fel yr amlygir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol, ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd. Mewn perthynas ag unrhyw newid i aelodaeth y Bwrdd mae Emyr Williams, Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri yn gadeirydd ers mis Medi 2019. Yn ogystal mae Annwen Morgan yn Brif Weithredwr i Gyngor Sir Ynys Môn ers mis Hydref 2019, ac felly yn gynrychiolaeth newydd at aelodau statudol y Bwrdd.

**5.2.2** Mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grwpiau er mwyn ei gefnogi i weithredu ei swyddogaethau. Ceir isod ddiweddariad ar waith yr is-grwpiau.

**5.2.3 Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor**

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar drefniant yr is-grŵp | Beth mae’r is-grŵp yn ei gyflawni sy’n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus yn y maes | Amserlen Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg** | Mae Is-grŵp yn weithredol o dan arweiniad Jerry Hunter, Prifysgol Cymru Bangor. Mae trefniadau llywodraethu’r is-grŵp wedi ei drefnu i sicrhau fod ganddynt grŵp craidd ond hefyd fod cynrychiolaeth eraill o’r Bwrdd yn gallu cyfannu at waith y grŵp ar bwyntiau penodol. Yn ddiweddar mae aelodau eraill o’r Bwrdd wedi eu gwahodd i gyfrannu at y gwaith a bwriedir cynnwys cynrychiolaeth ehangach wrth i waith yr is-grŵp ddatblygu. | Mae’r is-grŵp wedi adnabod meysydd gwaith sydd angen sylw o dan y flaenoriaeth hon sef : rhannu arfer dda, gwella profiad y dinesydd wrth iddynt ddefnyddio gwasanaeth cyhoeddus ac Iaith a Thaith Plentyn a’r rhwystrau sy’n eu hatal rhag dal eu gafael ar yr Iaith. Mae’r is-grŵp wedi penderfynu canolbwyntio yn bennaf ar un prosiect penodol sef ‘Arfer’ sy’n edrych ar newid ymddygiad o fewn gweithleoedd ac yn gallu arwain at fwy o ddefnydd o’r Gymraeg gan yr unigolion hynny sydd ddim yn teimlo’ n gyfforddus / hyderus i’w ddefnyddio. Mae hwn yn waith ychwanegol o hyrwyddo’r iaith Gymraeg yn y cyrff cyhoeddus sy’n cymryd rhan yn y prosiect. | Prosiect am 12mis yw ‘Arfer’ yn y lle cyntaf. Sefydlwyd y Bwrdd Prosiect ym mis Mai 2019. |
| **Newid Hinsawdd** | Mae is-grŵp wedi ei sefydlu ac yn weithredol o dan arweiniad Sian | Mae'r is-grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall pa ddata a | Mae amserlen hyd at fis Mawrth 2020 wedi ei osod ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r is grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth eang iawn o wahanol sefydliadau. Yn ogystal mae gweithdai lleol a rhanbarthol wedi eu cynnal er mwyn 'cynnwys' ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid yn y drafodaeth. | thystiolaeth sydd ar gael gan y sefydliadau sy'n aelodau o'r grŵp, fel y gellir defnyddio hynny i lunio amcanestyniadau a modelu newid hinsawdd i'r dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu i'r is-grŵp ganolbwyntio ar y cymunedau a'r asedau sydd dan fygythiad o lifogydd yng Ngwynedd a Môn. Bydd yr is-grŵp yn cynllunio mewn ffordd gydweithredol er mwyn rhoi llesiant ein cymunedau yn ganolbwynt, ac er mwyn cael cytundeb ar rôl a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau ac adrannau wrth iddynt ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd.<br>Mae'r is-grŵp wedi defnyddio Fairbourne fel achos o ymarfer da, ac er mwyn dysgu gwersi ar agweddau fel ymgysylltu a chydweithio'n well ers lles ein cymunedau. | llunio'r amcanestyniadau a modelu newid hinsawdd i'r dyfodol. |
| **Cartrefi ar gyfer pobl leol** | Mae is-grŵp wedi'i sefydlu ac yn gweithredu o dan arweiniad Ffrancon Williams, Adra. Mae grwp craidd wedi ei | Mae'r ddwy sir yn bresennol yn cynllunio i ddatblygu tai arloesol. Yr hyn | Mae cynllun prosiect ddrafft wedi ei lunio ac anelir at gael cymeradwyaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sefydlu i gynllunio ac i gadw trosolwg o'r prosiect. Mae cynrychiolaeth ehangach o aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu at weithgaredd yr is grŵp trwy gyfarfod y grŵp modelau tai arloesol. | mae'r is-grŵp yn ei gynnig yw dod â chynlluniau'r cyrff cyhoeddus ynghyd, a sefydlu trefniadau i gydweithio er mwyn ystyried nifer llai o fodelau arloesol ond hefyd i gyflawni arbedion maint, sydd yn y pen draw yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau.<br><br>Mae adnodd rheoli prosiect, rhan amser wedi ei sicrhau i yrru'r gwaith yn ei flaen. | lawn gan gynnwys y trefniadau ariannu, i'r prosiect erbyn Gorffennaf 2020. |
| **Tlodi** | Mae tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd ond nid oes is-grŵp yn arwain ar y gwaith yn bresennol. Cytunwyd bod cyfle trwy'r Bwrdd i roi sylw i'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddi o fewn y 2 Awdurdod Lleol mewn perthynas â thlodi, cyn ystyried opsiynau ar gyfer y Bwrdd i weithio'n fwy integredig a chydlynus. | | |

**5.2.4 Amcan 2 – Trigolion sy'n Iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da**

Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar drefniant yr is-grŵp | Beth mae'r is-grŵp yn ei gyflawni sy'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal oedolion, a lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.** | Mae is-grŵp Iechyd a Gofal integredig y Gorllewin wedi ei sefydlu ac yn gweithredu o dan arweiniad Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r is-grŵp yn cadw trosolwg ac yn sicrhau bod y datblygiadau a newidiadau yn y gwasanaeth yr ydym yn dymuno eu gweld yn y Gorllewin yn cael eu cyflwyno. Mae'r is-grwp hefyd yn darparu'r arweinyddiaeth a'r llywodraethu angenrheidiol ar gyfer is-grwpiau sy'n ymwneud a'r meysydd plant, oedolion, iechyd meddwl a thrawsnewid cymunedol. | Byddwn yn gweld gweithredu, ar y cyd, system iechyd a gofal newydd – fydd yn hyrwyddo iechyd a lles da yn ein cymunedau. Bydd y system yn gallu cyfrannu at alluogi trigolion i ddefnyddio eu sgiliau byw yn annibynnol. | I'w gadarnhau |

### 5.3 Monitro

**5.3.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno

**5.3.2** Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

### 5.4 Trefniadau Craffu

**5.4.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini  Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

**5.4.2**  Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**5.4.3**  Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan  Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae swyddogion craffu o Wynedd ac Ynys Môn wedi gwerthuso'r opsiynau o barhau gyda threfniadau craffu presennol yr Awdurdodau Lleol neu sefydlu panel ar y cyd. Daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach i ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y 2 Sir.  Byddai modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.

.

**5.4.4** Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 11eg Rhagfyr 2019 er mwyn eu hysbysu o'r argymhelliad o barhau gyda'r trefniadau craffu cyfredol. Bwriedir gosod trefniant ble bydd angen cadarnhau'r cydweithio rhwng y ddwy sir a sefydlu'r rhaglen waith a'r amserlen ar gyfer craffu ar y cyd.

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

**5.5 Adnoddau**

**5.5.1** Mae rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae tîm cefnogi'r Bwrdd wedi ei sefydlu ac yn llawn ymgymryd â'u rôl o gefnogi'r gwaith y Bwrdd a'r is-grwpiau cysylltiedig.

**5.5.2** Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn wedi gofyn i'r is-grwpiau, pan yn berthnasol, gyflwyno achos busnes fel rhan o'u cais am adnoddau er ystyriaeth gan y Bwrdd. Mae'r BGC wedi cytuno i gyd-gyllido adnodd ar gyfer cefnogi gwaith un o'r is-grwpiau. Rhagwelir y bydd yr angen am adnoddau yn parhau wrth i'r is-grwpiau aeddfedu a datblygu.

**5.6 Risgiau**

**5.6.1** Mae'r Bwrdd yn rheoli risgiau mewn perthynas â phrosiectau a gwaith yr is-grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Llesiant a'r amserlen benodedig. Rhagwelir y bydd cofrestr risg y Bwrdd yn cael ei reoli yn unol â'r pum ffordd o weithio. Bydd cofrestr risg ddrafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2019.

**5.7 Arolwg o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Swyddfa Archwilio Cymru: Hydref 2019)**
**https://www.audit.wales/sites/default/files/press_releases/adolygiad-o-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus-cymraeg.pdf**

**5.7.1** Ym mis Hydref 2019 cyhoeddwyd adroddiad ar arolwg o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynhaliwyd yr adroddiad gan SAC ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae SAC wedi archwilio sut y mae BGCau yn gweithredu . Mae rhan 2 o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar drefniadau craffu BGC. Nid adolygiad yn benodol ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yw hwn, ond yn hytrach adolygiad ar gyfer 19 o Fyrddau yng Nghymru. Fodd bynnag mae nifer o ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn berthnasol i FGC Gwynedd ac Ynys Môn.

**5.7.2** Mae tîm cefnogi'r BGC wedi paratoi crynodeb o'r prif argymhellion, a chynigion ar sut gall BGC Gwynedd ac Ynys Môn ymateb iddynt. Bydd y papur yma yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod nesaf ar 11eg Rhagfyr 2019. Bydd copi ohono yn gallu cael ei rannu hefo'r Pwyllgorau Craffu yn dilyn hynny.

| 6 | – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|---|
| | |

| |
|---|
| **6.1** Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb) a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. Yn ogystal bydd asesiadau effaith yn cael eu defnyddio pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno gan yr is-grwpiau sy'n argymell newid polisi / gwasanaeth. Felly bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau ar ran yr is-grwpiau fydd yn cael eu gwneud gan y Bwrdd. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| - |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn<br>2. Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018<br>3. Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio Ynys Môn ar 13eg Dachwedd 2018 (Trefniadau Llywodraethu'r BGC) |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **12 Tachwedd 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer chwarter 2 a 3 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (12 Medi, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2019/20: Chwarter 2 a 3. |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI: MEDI → RHAGFYR, 2019**
**[Fersiwn dyddiedig 04/11/19]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Medi, 2019 (11/09/19)** | **Medi, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 23/09/19 → 11/09/19)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2019/20 | Monitro Contractau Gofal Cymdeithasol |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19 | Trefniadau Diogelu (Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Monitro Gwelliannau Gwasanaethau Plant / Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| Polisi Gosod Tai (cyswllt lleol) | |
| | |
| | **Cyfarfod Arbennig (24/10/19)** |
| | Cynllun Datblyu Lleol ar y Cyd – Adroddiad Monitro Blynyddol |
| | Fframwaith datblygu cenedlaethol drafft – ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru |
| | Craffu Partneriaethau – adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor |
| | |
| **Tachwedd, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 04/11/19 → 21/11/19)** | **Tachwedd, 2019 (12/11/19)** |
| Monitro Perfformiad Ch2: 2019/20 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: 2018/19 |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant |
| | |
| **Rhagfyr, 2019 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 →16/12/19)** | |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf)
Medrwn Môn
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019); Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 04/11/19]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → 10/02/20)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (10/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Cyngor |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Strategaeth Cyfleon Dydd (anableddau dysgu) (camau nesaf)
Medrwn Môn
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor
Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019); Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19